Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
75/2022
DYDDIAD CYHOEDDI:
30/11/2022

# Cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr, a'u hymgysylltiad â dinasyddion:

## Arolwg o gynghorwyr

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-80535-074-3

**Cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr, a'u hymgysylltiad â dinasyddion:**
Arolwg o gynghorwyr

Nerys Owens
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru

Adroddiad Ymchwil Llawn: Owens, N. (2022). *Cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr, a'u hymgysylltiad â dinasyddion: Arolwg o gynghorwyr.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 75/2022.
Ar gael yn: https://llyw.cymru/cydnabyddiaeth-ariannol-i-gynghorwyr-ac-ymgysylltiad-dinasyddion-chynghorwyr-arolwg-o-gynghorwyr

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Nerys Owens
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwil.gwasanaethaucyhoeddus@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

1. Cefndir....4
2. Methodoleg ....6
3. Rôl cynghorydd ....8
4. Cydnabyddiaeth Ariannol ....36
5. Cyfarpar ....47
6. Ymddygiad ac agweddau at gynghorwyr....49
7. Hyfforddi a datblygu ....61

Cyfeiriadau....63

Atodiad A .... **Error! Bookmark not defined.**

Atodiad B ....85

## Rhestr o dablau


Tabl 1: Ymatebion yn ôl math o gynghorydd....8
Tabl 2: Pa mor hir ydych chi wedi gwasanaethu fel cynghorydd?....9
Tabl 3: A oes gennych unrhyw swyddi uwch o fewn y cyngor? ....10
Tabl 4: Yn ogystal â'ch gwaith fel cynghorydd, a ydych yn ymgymryd ag unrhyw un o'r canlynol?....11
Tabl 5: Yn eich barn chi, beth yw rôl bwysicaf cynghorydd?....13
Tabl 6: Yn eich barn chi, pa mor ymwybodol yw aelodau o'r cyhoedd o'r gwahaniaeth rhwng rôl cynghorydd sir a chynghorydd cymuned neu dref?....19
Tabl 7: Faint o ddylanwad ydych chi'n teimlo sydd gennych fel cynghorydd?....22
Tabl 8: Gan feddwl yn ôl i'r adeg pan oeddech yn ystyried dod yn gynghorydd, beth oedd eich disgwyliadau o ran yr oriau y byddai'n ofynnol ichi eu hymrwymo i'r rôl bob wythnos?....24
Tabl 9: Faint o amser ydych chi'n ei dreulio bob wythnos ar fusnes y cyngor?....25
Tabl 10: Tua faint o amser yr wythnos oeddech chi'n ei dreulio'n gweithio gartref cyn pandemig Covid-19?....28
Tabl 11: A hoffech i'r trefniadau gwaith a roddwyd ar waith yn ystod pandemig Covid-19 barhau yn y dyfodol?....28
Tabl 12: A oeddech yn gwybod bod gan gynghorwyr cymuned a thref hawl i gael y lwfansau a'r treuliau canlynol: ....38
Tabl 13: A ydych wedi adennill unrhyw rai o'r lwfansau a'r treuliau canlynol fel rhan o'ch rôl? ....39
Tabl 14: A oeddech yn gwybod bod gan gynghorwyr prif gyngor hawl i gael y lwfansau a'r treuliau canlynol: ....40
Tabl 15: A ydych wedi adennill unrhyw rai o'r lwfansau a'r treuliau canlynol fel rhan o'ch rôl? ....41
Tabl 16: A oeddech yn gwybod bod gan gynghorwyr dwy het hawl i gael y lwfansau a'r treuliau canlynol: ....43
Tabl 17: A ydych wedi adennill unrhyw rai o'r lwfansau a'r treuliau canlynol fel rhan o'ch rôl? ....43

Tabl 18: Ers dod yn gynghorydd, a ydych wedi profi neu weld unrhyw fath o ymddygiad amhriodol wrth ymgymryd â'ch rôl? ........ 49
Tabl 19: Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a ydych yn credu bod safon yr ymddygiad tuag at gynghorwyr yn eich ardal wedi: ........ 58
Tabl 20: A oes trefniadau priodol ar waith i ddelio ag ymddygiad amhriodol tuag at gynghorwyr gan… ........ 60

# 1. Cefndir

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal rhaglen ymchwil i gael gwybod mwy am rôl cynghorwyr yng Nghymru, eu cydnabyddiaeth ariannol a'u profiadau o ymgysylltu â dinasyddion. Mae'r rhaglen waith yma'n adeiladu ar werthusiad o gam cyntaf y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth gan Lywodraeth Cymru (McConnell and Stevenson, 2019), a oedd yn nodi'r angen am ddull gweithredu mwy penodol a phwrpasol i gynorthwyo grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i'w helpu i fynd ati i gymryd rhan mewn democratiaeth leol. Roedd y gwerthusiad hefyd yn tynnu sylw at ddiffyg ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd o rôl cynghorwyr, a'r cyfraniad pwysig maent yn ei wneud ar ran cymunedau.

1.2 I ddiwallu'r anghenion tystiolaeth hyn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad tystiolaeth o gydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr yng Nghymru a sut mae'n cymharu â gwledydd eraill (Williams, 2021), ac arolwg o agweddau'r cyhoedd (Owens, 2021). Mae elfen olaf yr ymchwil hon wedi cynnwys cynnal arolwg ar-lein o gynghorwyr yng Nghymru ar lefelau cynghorau cymuned a thref a phrif gynghorau, i gael gwybod mwy am eu rôl, gan gynnwys y math o waith maen nhw'n ei wneud, yr amser maen nhw'n ei dreulio'n gweithio fel cynghorwyr i gynorthwyo cymunedau, y gydnabyddiaeth ariannol maen nhw'n ei derbyn a'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu i gefnogi'r rôl. Gyda'i gilydd, bydd canfyddiadau'r ymchwil o'r tri cham yn dyfnhau dealltwriaeth o rôl a chydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr yng Nghymru o sawl persbectif.

1.3 Bydd canfyddiadau'r adolygiad tystiolaeth a'r arolwg o agweddau'r cyhoedd yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â'r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r ymchwil hon i lywio'r gwaith o gynllunio a darparu gweithgarwch o dan gam nesaf y Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, gyda'r nod o gynyddu hyder cynghorwyr eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a sicrhau bod y disgwyliadau a roddir arnynt yn deg a bod eu cydnabyddiaeth ariannol yn adlewyrchu eu gwaith yn briodol.

1.4 Mae gweddill yr adroddiad hwn yn amlinellu methodoleg yr arolwg ac yn cyflwyno canfyddiadau allweddol o dan y themâu canlynol:

- profiadau cynghorwyr a’r gwaith maen nhw’n ei wneud;
- lwfansau a chydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr;
- y cyfarpar maen nhw’n ei ddefnyddio i gyflawni eu rôl;
- ymddygiad ac agweddau at gynghorwyr ar lefel gymunedol; a
- hyfforddiant a datblygiad.

## 2. Methodoleg

2.1 Pwrpas yr arolwg ar-lein oedd cael gwybod mwy am rôl cynghorwyr ar lefelau cynghorau cymuned a thref a phrif gynghorau, gan gynnwys y math o waith maen nhw’n ei wneud, yr amser maen nhw’n ei dreulio’n gweithio fel cynghorwyr i gynorthwyo cymunedau, y gydnabyddiaeth ariannol maen nhw’n ei derbyn a’r hyfforddiant sy’n cael ei ddarparu i gefnogi’r rôl.

2.2 Bydd y dystiolaeth a fydd yn cael ei chasglu fel rhan o’r arolwg yn helpu Llywodraeth Cymru i ddod o hyd i ffyrdd o ddarparu cefnogaeth ehangach i gynghorwyr presennol a darpar gynghorwyr, gyda’r nod o wella’r cyfleoedd sydd ar gael i amrywiaeth eang o unigolion a grwpiau gymryd rhan mewn democratiaeth leol.

2.3 Datblygwyd cwestiynau’r arolwg gan ymchwilwyr cymdeithasol a swyddogion polisi yn Llywodraeth Cymru ar y cyd â chynrychiolwyr o Un Llais Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Cafodd yr arolwg ei weinyddu gan ddefnyddio SmartSurvey, sef llwyfan arolygon ar-lein sy’n ei gwneud yn bosibl i lenwi arolygon ar gyfrifiaduron, dyfeisiau tabled a ffonau clyfar, ac roedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

2.4 Mae pwyntiau cyswllt allweddol yn Un Llais Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi helpu i rannu gwybodaeth am yr arolwg â rhwydweithiau perthnasol ynghyd â dolen i’r arolwg ar-lein, gyda’r nod o gyrraedd cynghorwyr ar hyd a lled Cymru, mewn prif gynghorau ac mewn cynghorau cymuned a thref. Roedd yr arolwg ar agor am gyfnod o 8 wythnos rhwng 1 Hydref 2021 a 26 Tachwedd 2021. Anfonwyd e-byst atgoffa cyn y dyddiad cau er mwyn annog pobl i gymryd rhan. Cafodd y dadansoddiad ei wneud yn fewnol gan ymchwilwyr cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

2.5 Daeth cyfanswm o 1,844 o ymatebion i law, a oedd yn cynnwys 1,142 o ymatebion cyflawn a 702 o ymatebion rhannol. O blith yr ymatebion rhannol hyn, cafodd 220 o ymatebion eu hepgor o’r dadansoddiad oherwydd eu bod yn ymatebion dyblyg (a ganfuwyd wrth edrych ar gyfeiriad IP yr ymatebydd), neu oherwydd bod y cyfranogwr wedi clicio drwy’r arolwg ond heb ddarparu unrhyw ymatebion i’r

cwestiynau. Gyda'i gilydd, cafodd 1,624 o ymatebion eu cynnwys yn y dadansoddiad. Mae cwestiynau'r arolwg wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

## 3. Rôl cynghorydd

### Proffil yr ymatebwyr

3.1 Roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr (66 y cant) yn gynghorwyr cymuned a thref yn unig. Roedd tua un o bob pump (19 y cant) yn gynghorwyr prif gyngor yn unig. Dywedodd y 15 y cant a oedd ar ôl eu bod yn gweithio fel Cynghorwyr â 'dwy het'[a].

**Tabl 1: Ymatebion yn ôl math o gynghorydd**

| | Canran yr ymatebwyr | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Prif gynghorydd | 19 | 314 |
| Cynghorydd cymuned neu dref | 66 | 1055 |
| Cynghorydd â 'dwy het' | 15 | 240 |
| **Cyfanswm** | **100** | **1609** |

Sylfaen: 1,609 o ymatebwyr (dewisodd 15 ymatebydd beidio ag ateb y cwestiwn hwn)

3.2 Ar draws y tri chategori o gynghorwyr, cafwyd ymatebion gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. O blith y Cynghorwyr cymuned neu dref a ymatebodd, gan gynghorwyr Powys y cafwyd y gyfran uchaf o ymatebion (16 y cant), wedyn Sir Benfro (10 y cant) a Sir Gaerfyrddin (9 y cant). Roedd yr ymatebion gan gynghorwyr prif gyngor wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal ar draws yr holl awdurdodau lleol, ac yn amrywio o 2 y cant yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Sir Fynwy, i 8 y cant yng Nghyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Penfro.

### Hyd gwasanaeth

3.3 Ar draws pob categori o gynghorydd, roedd 14 y cant wedi bod yn gwasanaethu fel cynghorydd ers blwyddyn neu ddwy, ac ychydig llai nag un o bob tri (32 y cant) yn gwasanaethu ers 3-5 mlynedd. Roedd ychydig mwy nag un o bob pump (21 y cant) o'r ymatebwyr wedi bod yn gwasanaethu fel cynghorydd ers 10-20 mlynedd, a 15 y cant ers mwy nag 20 mlynedd.

[a] Mae cynghorwyr 'dwy het' yn golygu'r rheini sy'n gwasanaethu ar brif gyngor ac o leiaf un neu fwy o gynghorau cymuned neu dref.

**Tabl 2: Pa mor hir ydych chi wedi gwasanaethu fel cynghorydd?**

| Hyd gwasanaeth | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| 1-2 flynedd | 14 |
| 3-5 mlynedd | 32 |
| 6-9 mlynedd | 17 |
| 10-15 mlynedd | 14 |
| 21-25 mlynedd | 8 |
| Mwy na 25 mlynedd | 10 |

Sylfaen: 1,530 o ymatebwyr (dewisodd 94 ymatebydd beidio ag ateb y cwestiwn hwn)

3.4 O blith y Cynghorwyr cymuned neu dref a atebodd y cwestiwn hwn (1,016 o ymatebwyr), roedd ychydig dros hanner (52 y cant) wedi bod yn gwasanaethu fel cynghorydd ers 1-5 mlynedd, o gymharu â 37 y cant o gynghorwyr prif gyngor a 32 y cant o'r rheini a oedd yn gweithio fel Cynghorwyr â 'dwy het'. Roedd cynghorwyr a oedd yn gweithio fel Cynghorwyr â 'dwy het' yn fwy tebygol o fod wedi bod yn y rôl ers cyfnod hwy o gymharu â chynghorwyr prif gyngor a chynghorwyr cymuned a thref. Roedd bron i chwarter (23 y cant) o'r Cynghorwyr â 'dwy het' a atebodd y cwestiwn hwn wedi bod yn y rôl ers dros 20 mlynedd, o gymharu ag 13 y cant o gynghorwyr prif gyngor ac 13 y cant o gynghorwyr cymuned a thref.

**Swyddi uwch**

3.5 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw swyddi uwch yn y cyngor fel rhan o'u rôl. O blith y 964 o gynghorwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd bron i dri o bob pump (58 y cant) yn gynghorwyr cymuned a thref, roedd tua chwarter (24 y cant) yn gynghorwyr prif gyngor ac roedd tua un o bob pump (18 y cant) yn gynghorwyr dwy het.

3.6 Dywedodd tua dau o bob pump (43 y cant) o gynghorwyr cymuned a thref eu bod yn aelodau o bwyllgor, dywedodd chwarter (25 y cant) fod ganddynt swydd fel cadeirydd pwyllgor, ac roedd tua un o bob pump (18 y cant) yn gwasanaethu fel cadeirydd eu cyngor cymuned neu dref. Roedd rhai o'r swyddi uwch eraill a oedd gan gynghorwyr cymuned a thref yn cynnwys clerc y cyngor; is-gadeirydd pwyllgor; dirprwy gadeirydd y cyngor; cyn-gadeirydd y cyngor, a maer neu ddirprwy faer.

3.7 Dywedodd tua hanner y Prif gynghorwyr (49 y cant) a atebodd eu bod yn aelodau o bwyllgor, ac roedd gan tua chwarter (22 y cant) rôl fel cadeirydd pwyllgor.

Dywedodd tua un o bob pump (19 y cant) o gynghorwyr prif gyngor eu bod yn aelodau cabinet, ac roedd gan tua un o bob 10 (7 y cant) swydd fel arweinydd, neu arweinydd yr wrthblaid. Roedd y swyddi uwch eraill a oedd gan gynghorwyr prif gyngor yn cynnwys aelodaeth o wahanol baneli a phartneriaethau, cyn-faer neu ddirprwy faer a dirprwy chwip.

3.8 Roedd yn ymddangos bod yr uwch swyddi a oedd gan gynghorwyr dwy het yn debyg iawn i swyddi Prif gynghorwyr, fel y gwelir yn Nhabl 3.

**Tabl 3: A oes gennych unrhyw swyddi uwch o fewn y cyngor?**

| Swyddi uwch yn y cyngor | Canran yr ymatebwyr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Pob cynghorydd | Cynghorwyr cymuned neu dref | Prif gynghorwyr | Cynghorwyr â 'dwy het' |
| Aelod Pwyllgor | 46 | 43 | 49 | 51 |
| Cadeirydd Pwyllgor | 24 | 25 | 22 | 22 |
| Cadeirydd y Cyngor | 18 | 27 | 5 | 4 |
| Aelod Cabinet | 8 | <2 | 19 | 17 |
| Arweinydd | 2 | <2 | 4 | <2 |
| Arweinydd yr Wrthblaid | 2 | <2 | 3 | 2 |
| Rôl uwch arall | 20 | 23 | 14 | 20 |

Sylfaen: 964 o ymatebwyr (dewisodd 660 ymatebydd beidio ag ateb y cwestiwn hwn)

[a] Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb o'r rhestr o opsiynau, felly nid yw'r colofnau'n dod i gyfanswm o 100 y cant

### Rolau ychwanegol eraill

3.9 Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn cyflawni unrhyw rolau ychwanegol ochr yn ochr â'u gwaith fel cynghorydd. O blith y 1,446 o gynghorwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd tua dau o bob pump (45 y cant) wedi ymddeol, ac roedd ychydig mwy nag un o bob pump (21 y cant) yn gweithio'n llawnamser mewn swydd gyflogedig. Roedd bron i ddau o bob pump o'r ymatebwyr yn hunangyflogedig neu'n gwneud gwaith llawrydd, a dywedodd 13 y cant eu bod yn gweithio'n rhan-amser mewn swydd gyflogedig. Dywedodd tua un o bob 10 o'r ymatebwyr eu bod hefyd yn gofalu am deulu ochr yn ochr â'u rôl fel cynghorydd. Roedd y rolau ychwanegol eraill a grybwyllwyd gan y cynghorwyr yn cynnwys gwaith amaethyddol, prif ofalwr i aelod o'r teulu, ymddiriedolwr mudiad elusennol a gwirfoddolwr. Mae Tabl 4 yn rhoi dadansoddiad o'r ymatebion fesul math o gynghorydd.

**Tabl 4: Yn ogystal â'ch gwaith fel cynghorydd, a ydych yn ymgymryd ag unrhyw un o'r canlynol?**

| | Canran yr ymatebwyr | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rolau ychwanegol** | **Pob cynghorydd** | **Cynghorwyr cymuned neu dref** | **Prif gynghorwyr** | **Cynghorwyr â 'dwy het'** |
| Cyflogaeth lawn amser â thâl | 21 | 24 | 15 | 13 |
| Cyflogaeth ran amser â thâl | 13 | 13 | 15 | 12 |
| Hunangyflogedig neu'n weithiwr llawrydd | 19 | 19 | 18 | 19 |
| Di-waith | 2 | 1 | 4 | 3 |
| Wedi ymddeol | 45 | 47 | 39 | 47 |
| Yn gofalu am y cartref / teulu | 13 | 12 | 17 | 12 |
| Addysg lawn amser | 1 | <2 | <2 | - |
| **Rolau eraill a gofnodwyd gan lai na 100 o'r 964 o ymatebwyr (7 y cant) [a]** | | | | |
| Amaethyddiaeth | | | | |
| Prif ofalwr | | | | |
| Ymddiriedolwr mudiad elusennol | | | | |
| Gwirfoddolwr | | | | |

Sylfaen: 1446 o ymatebwyr (dewisodd 178 ymatebydd beidio ag ateb y cwestiwn hwn)

[a] Mae ymatebion y categori 'Arall' yn cael eu cyflwyno yn nhrefn yr wyddor.

### Gweithgareddau gwirfoddol

3.10 Roedd yr arolwg yn gofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn cyflawni unrhyw rolau gwirfoddol neu ddi-dâl ochr yn ochr â'u rôl fel cynghorydd. O blith y 1,436 o gynghorwyr a atebodd y cwestiwn hwn, dywedodd tua tri chwarter ohonynt (73 y cant) eu bod yn ymwneud â rolau gwirfoddoli.

3.11 Roedd y math o weithgareddau gwirfoddol roedd y cynghorwyr yn ymgymryd â nhw'n amrywio'n fawr. O blith y 981 o ymatebwyr a roddodd ragor o fanylion, dywedodd tua chwarter y cynghorwyr (24 y cant) eu bod yn cynnig cymorth gwirfoddol anffurfiol yn eu cymunedau, yn ogystal â thrwy grwpiau cymunedol a thrydydd sector sy'n gweithredu'n lleol. Roedd y math o weithgareddau a grybwyllwyd yn cynnwys:

- trefnu digwyddiadau cymunedol;
- rhoi cymorth ymarferol drwy gasglu neges a meddyginiaeth a danfon parseli bwyd;

- helpu i gynnal cynlluniau cyfeillio a chyfeillgarwch cymunedol sy'n ceisio mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol ymysg trigolion agored i niwed;
- cyd-drefnu banciau bwyd lleol; a
- chynnal mannau agored cyhoeddus yn y gymuned, gan gynnwys casglu sbwriel, clirio llwybrau troed a phlannu blodau.

3.12 Yn ogystal â'r gweithgareddau hyn, roedd tua un o bob pump (22 y cant) o gynghorwyr yn cyflawni rolau di-dâl gyda chymdeithasau a phwyllgorau lleol, naill ai fel cadeiryddion, ysgrifenyddion neu drysoryddion. Roedd cyfran debyg (21 y cant) yn llywodraethwyr ysgol, ac ychydig mwy nag un o bob 10 (13 y cant) yn gweithio fel ymddiriedolwyr i wahanol elusennau neu gymdeithasau lleol a chenedlaethol.

**Rhesymau dros fod yn gynghorydd**

3.13 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr beth oedd eu prif reswm dros sefyll fel cynghorydd. Roedd y cwestiwn hwn yn gyfle i roi ymateb penagored er mwyn annog ymatebwyr i rannu eu cymhellion personol ac i gyfleu amrywiaeth eang o safbwyntiau.

3.14 O blith y 1,271 o ymatebwyr a atebodd, roedd cyfran fawr wedi mynd yn gynghorwyr er mwyn gwella eu cymuned a'i gwneud yn lle gwell i fyw, a dywedodd llawer mai'r ffordd orau o wneud hyn oedd 'dylanwadu ar newid' a 'mynd ati i gyflawni pethau'. Roedd eraill wedi sefyll fel ymgeiswyr er mwyn 'helpu pobl' a 'rhoi llais i bobl leol'. Dywedodd nifer o gynghorwyr eu bod naill ai wedi cael eu hannog i sefyll neu eu cymell i wneud hynny o ganlyniad i ddiffyg ymgysylltu neu ddiffyg gweithredu gan gynghorwyr blaenorol yn eu hardal, tra bo eraill yn teimlo bod ganddynt yr wybodaeth a'r profiad addas neu'r daliadau a'r gwerthoedd gwleidyddol priodol i gyflawni'r rôl yn llwyddiannus.

**Canfyddiadau a dealltwriaeth o rôl a chyfrifoldebau cynghorydd**

3.15 Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oedd rôl bwysicaf cynghorydd yn eu barn nhw, a gallent ddewis un neu fwy o ymatebion o restr o wahanol opsiynau. O blith y 1,377 o gynghorwyr a atebodd y cwestiwn hwn, dywedodd y mwyafrif helaeth (91 y cant) mai eu rôl nhw oedd 'cynrychioli barn ac anghenion trigolion lleol', wedyn 'cefnogi'r gymuned leol' (88 y cant), 'gweithio gyda thrigolion i fynd i'r afael â materion lleol'

(87 y cant), a 'gwrando ar farn y gymuned leol' (85 y cant). Soniwyd yn aml hefyd am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion lleol (78 y cant), mynychu cyfarfodydd y cyngor (76 y cant) a gwneud penderfyniadau neu ddylanwadu ar benderfyniadau am waith y cyngor (72 y cant) fel rhai o rolau pwysig cynghorydd.

**Tabl 5: Yn eich barn chi, beth yw rôl bwysicaf cynghorydd?**

| Y rôl bwysicaf | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Cynrychioli barn ac anghenion trigolion lleol | 91 |
| Cefnogi'r gymuned leol | 88 |
| Gwrando ar farn y gymuned leol | 85 |
| Gweithio gyda thrigolion i fynd i'r afael â materion lleol | 87 |
| Mynychu cyfarfodydd y cyngor | 76 |
| Gwneud penderfyniadau neu ddylanwadu ar benderfyniadau am waith y cyngor | 72 |
| Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion lleol | 78 |
| Delio â chwynion | 64 |
| Cynnal cymorthfeydd | 23 |
| **Rolau eraill a gofnodwyd gan lai na 68 o'r 1377 o ymatebwyr (5 y cant) [a]** | |
| Darparu haen ychwanegol o waith craffu ar gyfer ymatebion a phenderfyniadau'r cyngor | |
| Annog eraill i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth ar lawr gwlad | |
| Gwella'r cyswllt rhwng cymunedau a haenau eraill o lywodraeth | |
| Diogelu a gwella gwasanaethau a chyfleusterau lleol | |
| Gwella llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol | |

Sylfaen: 1377 o ymatebwyr (dewisodd 247 ymatebydd beidio ag ateb y cwestiwn hwn)

[a] Mae ymatebion y categori 'Arall' yn cael eu cyflwyno yn nhrefn yr wyddor.

3.16 Mae'r sylwadau ychwanegol a roddwyd yn dangos bod tensiwn rhwng rôl draddodiadol aelodau etholedig gyda'r pwyslais ar ddylanwadu ar benderfyniadau'r cyngor, a'u dyletswyddau i ymateb i anghenion a disgwyliadau eu cymunedau. Cyfeiriodd nifer o gynghorwyr at yr heriau roedd hynny'n ei achosi, a'r ffordd yr oedd yn rhaid iddynt ddelio â phroblemau strategol hirdymor ochr yn ochr â phroblemau eraill mwy lleol a oedd yn wynebu'r etholwyr.

3.17 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a oedd eu dealltwriaeth o rôl a chyfrifoldebau cynghorwyr wedi newid o gwbl yn ystod eu cyfnod yn y rôl. O blith y cynghorwyr a atebodd y cwestiwn hwn (1,372 o ymatebwyr), roedd tua thri o bob pump (61 y cant) yn cytuno bod eu dealltwriaeth wedi newid, ond roedd tua un o bob tri (33 y cant) yn anghytuno. Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr egluro eu hateb mewn cwestiwn dilynol, penagored.

3.18 Cafwyd amrywiaeth o sylwadau negyddol gan y cynghorwyr. Pwysleisiodd llawer nad oeddent yn barod, pan gawsant eu hethol yn wreiddiol, ar gyfer lefel y gwaith yr oedd disgwyl iddynt ei wneud fel rhan o'r rôl. Dywedodd Prif gynghorwyr a chynghorwyr cymuned a thref fod eu llwyth gwaith wedi cynyddu'n sylweddol ers iddynt gael eu hethol yn wreiddiol, a'u bod bellach yn wynebu llawer mwy o alwadau ar eu hamser a disgwyliadau uchel iawn ymhlith etholwyr:

*Mae'n galw am lawer mwy o amser nad oeddwn i wedi'i ddisgwyl. Yn aml iawn dydy'r gymuned ddim yn deall pa mor anodd ydy datrys rhai problemau. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Mae mwy'n digwydd 'y tu ôl i'r llenni' nag oeddwn i'n ei ddisgwyl. Doeddwn i ddim yn sylweddoli faint o amser ac ymdrech (a does dim sylw'n cael ei roi i hynny) sy'n mynd ar bethau syml mae pobl yn eu cymryd yn ganiataol. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Mae'ch disgwyliadau o rôl cynghorydd yn gwbl wahanol i'r realiti o fod yn gynghorydd. (Prif gynghorydd)*

*Doeddwn i ddim yn sylweddoli faint o amser y mae'n rhaid ei neilltuo er mwyn bod yn Gynghorydd effeithiol, a doeddwn i ddim yn sylweddoli y byddai pobl yn cysylltu â mi drwy'r dydd ac ar benwythnosau. (Cynghorydd â 'dwy het')*

*Dechreuais fel Cynghorydd Tref, ac ychydig iawn o ddealltwriaeth oedd gen i o'r hyn oedd yn ddisgwyliedig ohona i [...] ac roedd bod yn Gynghorydd Sir hefyd wedi agor fy llygaid i [...] Mae bod yn Aelod o'r Cabinet yn lefel arall eto. Mae dim ond darllen yr holl waith papur yn dasg enfawr. Mae'n swydd lawnamser, ac mae'r cyfrifoldeb yn enfawr. (Cynghorydd â 'dwy het')*

*Mae'r swydd yn anodd iawn ar brydiau, ac yn gofyn am lawer iawn o amser. Mae'n teimlo fel ein bod ni ar alwad bob awr o'r dydd, bob diwrnod o'r wythnos, ond mae'n rhoi llawer o foddhad. (Cynghorydd Dwy Het)*

3.19 Mater arall a gafodd ei amlygu yn yr arolwg oedd cymhlethdod y gwaith y mae cynghorwyr yn ei wneud erbyn hyn, a oedd yn ymddangos yn llawer ehangach nag yr oedd llawer wedi'i ragweld yn wreiddiol. Roedd Prif gynghorwyr yn ogystal â chynghorwyr cymuned a thref yn rhannu'r farn honno:

*Dros 20 mlynedd a mwy yn y Cyngor Cymuned, rydw i wedi gweld ystod y cyfrifoldebau y mae angen i ni roi sylw iddynt yn cynyddu – oherwydd bod tasgau'n cael eu*

*trosglwyddo o’r Awdurdod Lleol neu oherwydd bod yr Awdurdod yn methu delio â’r holl faterion lleol, oherwydd bod mwy o fanylion mewn Amodau Gwasanaeth a gofynion cyfreithiol, ac i ryw raddau oherwydd y cynnydd yn nisgwyliadau trigolion o ran beth y dylai eu Cyngor Cymuned roi sylw iddo. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Mae'r gwaith wedi mynd yn anoddach, wrth i reoliadau a rheolau lleol a’r llywodraeth newid yn gyson, ac rydym yn fwy atebol i’r cyhoedd gan eu bod llawer yn fwy parod i feirniadu nawr nag yn y gorffennol. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Dim ond drwy fod yn rhan o’r cyngor y mae rhywun yn dechrau sylweddoli pa mor gymhleth ac aml-haen yw cyfrifoldebau cynghorydd sir. (Prif gynghorydd)*

*Oherwydd y cyfrifoldebau ychwanegol sydd wedi cael eu trosglwyddo i Awdurdodau Lleol dros y blynyddoedd, mae’r rôl y mae’n rhaid i Gynghorydd ei chyflawni wedi cynyddu’n sylweddol – hynny yw, Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, camfanteisio’n rhywiol ar blant, trais yn erbyn menywod, masnachu pobl ac ati (Prif gynghorydd)*

3.20 Roedd yr arolwg hefyd yn dangos bod mwy a mwy o rôl a llwyth gwaith cynghorydd bellach yn golygu gweithio’n strategol ar draws ardal yr awdurdod lleol, er enghraifft drwy ryngweithio ag ystod eang o bartneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a’r trydydd sector. Pwysleisiodd Prif gynghorwyr ynghyd â chynghorwyr cymuned a thref fod yr elfen hanfodol hon o’u rôl yn mynd â mwy a mwy o’u hamser ac yn gofyn am sgiliau penodol, yn ogystal â chefnogaeth ac adnoddau eraill.

3.21 Yn gysylltiedig â hynny, dywedodd nifer o gynghorwyr cymuned a thref eu bod yn gyfrifol am amrywiaeth o wasanaethau cymunedol, gan gynnwys toiledau cyhoeddus, cyfleusterau cymunedol fel llyfrgell a siop, a mannau gwyrdd, a oedd yn mynd â llawer iawn o amser ac adnoddau. Roedd y dyfyniad hwn gan gynghorydd cymuned a thref yn pwysleisio maint y cyfrifoldebau sydd gan gynghorau cymuned a thref:

*Ar y dechrau, doedden ni ddim yn gwneud fawr mwy na phenderfynu pa liw oedden ni eisiau ei ddefnyddio i beintio'r gysgodfan fysiau leol. Erbyn hyn rydym yn rhedeg Institiwt, 2 Neuadd Goffa [...] Clwb Bowls, Neuadd yr Henoed, 4 Parc lleol, maes chwarae mawr i blant, toiledau [...], yn gweithredu rhyw fath o ‘fanc bwyd’, yn rhedeg Clwb Cinio sy’n danfon prydau poeth ddwywaith yr wythnos i bobl anghenus, ac wedi datblygu nifer o Fforymau sy’n ceisio mynd i’r afael â chynaliadwyedd a Llesiant yn y*

*Dyfodol, gyda thrigolion a busnesau'n aelodau o'r fforymau hynny. Mae'n gyngor hollol wahanol i'r hyn ydoedd 17 mlynedd yn ôl. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

3.22 Ategwyd y farn honno gan gynghorwyr cymuned eraill a ddywedodd ei fod yn ymrwymiad mawr ar ben eu llwyth gwaith presennol, yn enwedig i gynghorwyr a oedd yn cyflawni'r rôl ochr yn ochr â swydd lawnamser. Pwysleisiwyd bod y cyfrifoldebau ychwanegol hyn yn galw am wybodaeth a sgiliau newydd nad yw nifer o'r cynghorwyr yn meddu arnynt. Soniodd llawer eu bod yn cael trafferth canfod a chael gafael ar gefnogaeth ac arbenigedd, a oedd yn golygu bod y cyfrifoldeb dros elfennau o'r broses reoli yn cael ei ysgwyddo gan y cyngor cymuned a gwirfoddolwyr lleol.

3.23 Her arall a amlygwyd gan gynghorwyr cymuned a thref oedd sicrhau nad yw unrhyw wasanaethau cymunedol a drosglwyddir o'r prif gyngor yn dod yn rhwymedigaethau, ac nad ydynt yn llyncu cyllidebau cynghorau. Un o'r prif flaenoriaethau a enwyd gan ymatebwyr yn y cyd-destun hwn oedd yr angen dybryd am well cefnogaeth gan y prif gyngor i helpu cynghorwyr i addasu i'r gofynion newydd hyn.

3.24 Teimlai ymatebwyr hefyd fod amwysedd ynghylch eu rôl bresennol yn achosi dryswch a thensiwn, nid yn unig ymhlith eu hetholwyr a grwpiau cymunedol ond hefyd ymhlith cynghorwyr ac ymgeiswyr posibl. Dywedodd Prif gynghorwyr a chynghorwyr cymuned a thref fod ganddynt, wrth sefyll yn yr etholiad, farn a disgwyliadau penodol am yr hyn roedd y rôl yn ei olygu. Fodd bynnag, dywedodd llawer ohonynt fod yr hyn roeddent wedi disgwyl ei gyflawni yn aml yn anghyson â realiti'r broses ddemocrataidd, fel y mae'r cynghorwyr hyn yn pwysleisio:

*Mae wir wedi bod yn agoriad llygad gweld beth y mae'n bosibl ei gyflawni yn yr haen yma o lywodraeth leol, a pha mor anodd mae hynny'n gallu bod. Fe sylweddolais i'n gyflym iawn faint o waith sy'n cael ei wneud y tu ôl i'r llenni, [...] rhywbeth nad oeddwn i'n gwybod dim amdano fel trigolyn. (Cynghorydd â 'dwy het')*

*Rwy'n teimlo bod y cyfleoedd i wneud newidiadau go iawn i'r dref yn gyfyngedig iawn, ac mai'r [...] pethau 'dibwys a dinod' sy'n cael eu gadael i ni. Rwy'n mynd yn fwy ac yn fwy rhwystredig, ac yn sylweddoli i mi fod yn afrealistig mae'n siŵr ynghylch fy uchelgeisiau. (Cynghorydd cymuned neu dref)*

*Mae gennych chi syniad o beth yw rôl cynghorydd cyn i chi ddechrau ar eich cyfnod, sy'n newid wrth i chi weld y realiti. (Cynghorydd cymuned neu dref)*

*Mae'ch disgwyliadau o rôl cynghorydd yn gwbl wahanol i'r realiti o fod yn gynghorydd. (Prif gynghorydd)*

3.25 Roedd Cynghorwyr cymuned neu dref yn arbennig yn ymwybodol iawn o'r cyfyngiadau ar rolau'r cyngor a'u rolau unigol, a mynegodd nifer ohonynt rwystredigaeth ynghylch y dylanwad a'r grym cyfyngedig a oedd ganddynt o fewn strwythurau llywodraethu lleol:

*Mae'n anoddach nag y mae rhywun yn ei feddwl i gynghorau tref wneud gwahaniaeth. Mae gwybodaeth hwyr neu ddiffyg gwybodaeth, a therfynau amser tynn i gytuno ar gamau gweithredu, yn llesteirio busnes. Mae'n ymddangos nad oes gan Gynghorau Tref lawer o ddylanwad ar benderfyniadau'r Cyngor Sir, ac yn aml iawn nid yw'n ymgynghori â'r Cynghorau Tref ar brosiectau a chynlluniau sy'n effeithio ar eu tref. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Ar lefel Cyngor Cymuned, dim ond hyn a hyn allwn ni ei gyflawni. Dydy hynny ddim wedi newid llawer yn ystod y blynyddoedd rydw i wedi bod yn gwasanaethu. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Rydw i wedi teimlo bod rôl Cynghorydd Cymuned yn eithaf cyfyngedig a rhwystredig. Mae'n ymddangos mai fy mhrif rôl i yw bod yn gyswllt rhwng yr Awdurdod Lleol a'r trigolion, does gen i ddim pŵer i 'wneud' dim byd. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Rydych chi'n meddwl eich bod chi'n gwneud gwahaniaeth ac yn cael dylanwad, ond does neb yn gwrando arnoch chi y rhan-fwyaf o'r amser. Mae'n hawdd bod yn amhoblogaidd wrth fod yn gynghorydd, oherwydd rydych chi'n cael eich beio am herio cynnydd yn eich ardal, neu am greu oedi. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

3.26 Ynghlwm wrth y rhwystredigaethau hynny oedd y berthynas sydd gan gynghorwyr â swyddogion y cyngor. Teimlai nifer bach o gynghorwyr cymuned a thref fod eu rôl yn aml yn cael ei thanbrisio a'i thanseilio gan swyddogion y cyngor, fel y dywed un cynghorydd:

*[...] nid yw'r Cyngor Sir, yn enwedig ei Swyddogion, yn cymryd rôl Cynghorwyr Cymuned o ddifrif. Er ein bod, mewn theori, i fod ar reng flaen y broses ddemocrataidd. (Cynghorydd cymuned neu dref)*

3.27 Roedd Cynghorwyr cymuned neu dref hefyd yn cwyno nad yw swyddogion y cyngor yn eu cynnwys mewn rhai penderfyniadau, a’u bod yn aml iawn ddim yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth briodol, a oedd yn amharu ar allu'r cynghorwyr i ymateb mor effeithiol ag y byddent yn dymuno. Dywedodd un Cynghorydd cymuned neu dref:

*Mae’r Cyngor Cymuned yn cael ei drin fel rhywbeth amherthnasol gan ein haelod o’r Prif Gyngor a chan nifer o Swyddogion y Prif Gyngor sy’n anwybyddu negeseuon e-bost a galwadau ffôn ein Clerc. (Cynghorydd cymuned neu dref)*

3.28 Roedd yr angen am broses well o rannu gwybodaeth o fewn strwythurau llywodraethu ac am ddealltwriaeth ehangach o rôl cynghorydd o ran herio, cwestiynu a gofyn am wybodaeth ac esboniadau gan swyddogion, yn ogystal ag uwch gynghorwyr, yn ategu teimladau llawer o gynghorwyr prif gyngor ynghylch y pellter rhyngddyn nhw a’r broses o wneud penderfyniadau:

*Ar ôl treulio 31 mlynedd fel cynghorydd, rwy’n dal i weld elfennau problemus yn y cyngor, yn enwedig y diffyg grym cymharol sydd gan gynghorwyr wrth gymharu ag uwch swyddogion. (Prif gynghorydd)*

*Roeddwn i’n synnu’n fawr wrth weld faint o ddylanwad oedd gan y swyddogion ar y broses o wneud penderfyniadau. (Prif gynghorydd)*

*Mae’r pŵer i ddylanwadu ar Swyddogion ac Aelodau’r Cabinet yn llai o lawer. (Prif gynghorydd)*

*Oherwydd diffyg gwybodaeth gan Swyddogion, dydych chi ddim yn gallu cyflawni eich swydd mewn ffordd broffesiynol. (Prif gynghorydd)*

**Canfyddiadau'r cyhoedd o gynghorwyr**

3.29 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor ymwybodol oedd y cyhoedd (os o gwbl) o'r gwahaniaeth rhwng rôl cynghorydd sir a chynghorydd cymuned a thref yn eu barn nhw. O blith y cynghorwyr a atebodd y cwestiwn hwn (1,287 o ymatebwyr), roedd tua hanner (48 y cant) yn meddwl bod gan y cyhoedd rywfaint o ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth rhwng y ddau fath o gynghorydd, ac roedd ychydig llai nag un o bob tri (30 y cant) yn meddwl nad oedd y cyhoedd yn ymwybodol o gwbl o'r gwahaniaeth. Roedd ychydig mwy nag un o bob pump o'r ymatebwyr (22 y cant) yn meddwl bod gan y cyhoedd rywfaint o ymwybyddiaeth (naill ai yn ymwybodol neu'n ymwybodol iawn) o'r gwahaniaeth (Tabl 6).

**Tabl 6: Yn eich barn chi, pa mor ymwybodol yw aelodau o'r cyhoedd o'r gwahaniaeth rhwng rôl cynghorydd sir a chynghorydd cymuned neu dref?**

| Ymwybyddiaeth y cyhoedd o wahanol fathau o gynghorwyr | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Yn ymwybodol iawn | 4 |
| Yn ymwybodol | 18 |
| Ychydig bach o ymwybyddiaeth | 48 |
| Ddim yn ymwybodol o gwbl | 30 |

Sylfaen: 1287 o ymatebwyr (dewisodd 337 ymatebydd beidio ag ateb y cwestiwn hwn)

3.30 Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn beth, yn eu barn nhw, yw'r camdybiaethau mwyaf cyffredin sydd gan y cyhoedd am rôl cynghorydd. Roedd y cwestiwn hwn yn gyfle i roi ymateb penagored er mwyn annog yr ymatebwyr i rannu eu safbwyntiau a'u profiadau.

3.31 Roedd teimlad cyffredinol ymysg cynghorwyr fod diffyg dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y mae cynghorwyr yn ei wneud, ac yn enwedig yr hyn maent yn gallu ei gyflawni i'w cymunedau, yn llesteirio eu gwaith yn aml. Un pryder cyffredin a leisiwyd gan gynghorwyr oedd nad oedd gan y cyhoedd lawer o syniad, neu ddim syniad o gwbl, beth oedd rôl cynghorydd o ddydd i ddydd. Fel y dywedodd un Prif gynghorydd:

> *Ychydig iawn o wybodaeth sydd gan y cyhoedd am rôl cynghorydd ac am faint o ymrwymiad sydd ei angen i gyflawni'r rôl.*

3.32 Ategwyd y pryder hwnnw gan lawer o gynghorwyr, a bwysleisiodd y farn mai ychydig iawn o ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad sydd gan y cyhoedd o faint a chymhlethdod y gwaith maen nhw’n ei wneud:

*Maen nhw’n meddwl mai dim ond mynd i gyfarfodydd rydym ni’n ei wneud. Does gan y cyhoedd ddim syniad faint o amser rydym yn ei dreulio’n gwneud y gwaith. (Prif gynghorydd)*

3.33 Ynghlwm wrth hynny roedd pryderon am ddisgwyliadau afrealistig y cyhoedd ynghylch yr hyn y gall cynghorwyr ei gyflawni ar ran etholwyr a chymunedau, fel y mae’r cynghorwyr hyn yn pwysleisio:

*Mae yna ragdybiaeth bod gan Gynghorwyr Cymuned ddigonedd o amser ac arian personol i neilltuo eu holl amser ac ymdrech i faterion lleol. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Bydd aelod o’r cyhoedd yn dod ataf gyda phroblem y mae'n disgwyl i’r cynghorydd ei datrys ddoe, dim ond i gael gwybod fod yna system sy’n cynnwys protocol ac sy’n gofyn am amser a staff ac arian er mwyn datrys y broblem. (Cynghorydd â ‘dwy het’)*

*Mae disgwyl i gynghorwyr wybod popeth a gweithredu ar bopeth. (Cynghorydd â ‘dwy het’)*

3.34 Roedd yn ymddangos bod y pwynt hwn yn arbennig yn achosi rhwystredigaeth i gynghorwyr cymuned a thref, gyda llawer yn dweud bod etholwyr yn aml yn meddwl bod gan gynghorwyr y pŵer i ddatrys problemau lleol yn syth. Pwysleisiodd Cynghorwyr fod llawer iawn o ddryswch hefyd ymysg etholwyr a’r cyhoedd ynghylch cyfrifoldebau a swyddogaethau gwahanol rannau o’r llywodraeth. Roedd hyn yn arwain at y rhagdybiaeth y gallai pob cynghorydd gael dylanwad uniongyrchol ar bolisïau a phrosesau yn annibynnol ar weddill y cyngor a lefelau eraill o lywodraeth:

*Gan amlaf, nid yw’r cyhoedd yn deall cylch gwaith cynghorwyr ar wahanol lefelau, na’r gwahaniaeth rhwng yr hyn y gall cyngor cymuned ei reoli neu ddylanwadu arno, yr hyn y mae prif awdurdod yn ei reoli, a’r hyn y mae Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU yn ei reoli. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd yn y gymuned am y gwahanol lefelau o wleidydd. Rwyf wedi cael fy ngalw droeon yn Aelod Seneddol neu’n Aelod o’r Senedd. (Prif gynghorydd)*

*Nid yw pobl yn deall trefn lywodraethu'r Cyngor Sir, maen nhw'n meddwl bod gan bob cynghorydd y pŵer i roi cyfarwyddyd i bob swyddog [...]. Yn aml, dyma un o'r pethau cyntaf y byddaf yn ei drafod â thrigolion a fydd yn cysylltu â mi, er mwyn iddynt ddeall yn well sut gallaf eu helpu. (Cynghorydd â 'dwy het')*

*Does gan y rhan fwyaf ddim syniad o'r gwahaniaeth mewn awdurdod a chyfrifoldeb rhwng cynghorau sir a chynghorau cymuned, ac mae'r rhan fwyaf yn credu bod gan y cynghorwyr eu hunain bwerau i ddatrys eu problem benodol ar unwaith. (Cynghorydd â 'dwy het')*

*Does gan y rhan fwyaf ddim syniad beth yw rolau gwahanol y Cyngor Cymuned, y Cyngor Sir, y Senedd a San Steffan. Mae llawer yn meddwl eich bod chi'n llinell uniongyrchol at beth bynnag maen nhw angen iddo gael ei gyflawni, a'ch bod yn rhedeg adrannau a gwasanaethau ac yn gallu newid pethau ar eich pen eich hun. (Cynghorydd â 'dwy het')*

3.35 Hefyd, pwysleisiodd cynghorwyr fod ansicrwydd yr amgylchedd cyfnewidiol maent yn gweithio ynddo erbyn hyn, a siapiwyd gan effeithiau Brexit a phandemig Covid-19, wedi newid y ffordd yr oedd pobl eraill yn trin cynghorwyr a'u parch at gynghorwyr ar lawer cyfrif. Roedd barn gyffredin nad oedd y cyhoedd yn parchu cynghorwyr a gwleidyddion yn gyffredinol, a'i bod felly'n ddigon teg eu beirniadu a'u cam-drin. I lawer, roedd hyn yn tanseilio eu gallu i gyflawni eu rôl yn effeithiol:

*Mae rôl cynghorwyr sir wedi cael ei dibrisio ers blynyddoedd, ac mae'n cael ei hystyried fel gwaelod y domen (Prif gynghorydd)*

*Mae rhai'n meddwl eu bod yn gallu cam-drin a siarad â chynghorwyr heb ystyried ein teimladau. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

3.36 Roedd canfyddiad y cyhoedd a'u camddealltwriaeth o'r drefn lwfansau a chydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr yn achosi'r un lefel o bryder ymhlith cynghorwyr. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y cynghorwyr bod y cyhoedd yn ystyried pob cynghorydd yn grŵp unffurf o wleidyddion cyflogedig llawnamser sy'n derbyn incwm hael am wneud gwaith y cyngor. Teimlai Cynghorwyr cymuned neu dref yn arbennig fod diffyg ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gydnabyddiaeth ariannol yn niweidiol iawn i'w rôl, a dywedodd nifer nad oeddent yn hawlio lwfansau a threuliau yr oedd ganddynt hawl iddynt. Trafodir y mater hwn yn fanylach yn adran 4.

3.37 Pwysleisiodd cynghorwyr cymuned hefyd eu bod yn dod ar draws agweddau a chanfyddiadau negyddol gyda nifer ohonynt yn dweud eu bod yn aml yn cael eu galw'n 'ddiog' neu'n 'dda i ddim'. Beirniadaeth gyffredin arall o gynghorwyr yw nad oes ganddynt y sgiliau na'r pwerau angenrheidiol i ddelio â phroblemau neu faterion lleol.

3.38 Mynegodd llawer o gynghorwyr bryder hefyd ynghylch y farn gyffredin eu bod yn 'troi'r dŵr i'w melin eu hunain', gyda nifer yn dweud eu bod yn aml yn cael eu cyhuddo o fod 'yno er mwyn nhw eu hunain'.

**Dylanwad cynghorydd**

3.39 Gofynnodd yr arolwg i'r ymatebwyr faint o ddylanwad roedden nhw'n teimlo oedd ganddyn nhw fel cynghorydd. O blith y 1,281 o gynghorwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd tua hanner (49 y cant) yn teimlo bod ganddynt lai o ddylanwad i newid pethau nag oeddent wedi'i ddisgwyl, ac roedd ychydig mwy nag un o bob tri (35 y cant) yn teimlo bod ganddynt gymaint o ddylanwad ag oeddent wedi disgwyl ei gael. Ychydig mwy nag un o bob 10 o'r ymatebwyr (14 y cant) oedd yn meddwl bod ganddynt fwy o ddylanwad na'r disgwyl i newid pethau (Tabl 7).

**Tabl 7: Faint o ddylanwad ydych chi'n teimlo sydd gennych fel cynghorydd?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Pob cynghorydd | Cynghorwyr cymuned neu dref | Prif gynghorwyr | Cynghorwyr â 'dwy het' |
| Mwy o ddylanwad i newid pethau na'r disgwyl | 14 | 10 | 19 | 23 |
| Llai o ddylanwad i newid pethau na'r disgwyl | 48 | 51 | 44 | 45 |
| Cymaint o ddylanwad â'r disgwyl | 35 | 36 | 35 | 31 |
| Ddim yn gwybod | 3 | 3 | 2 | 1 |
| Cyfanswm | 100 | 100 | 100 | 100 |

Sylfaen: 1,281 o ymatebwyr (dewisodd 343 ymatebydd beidio ag ateb y cwestiwn hwn)

3.40 Roedd yr ymatebion yn amrywio rhywfaint yn ôl math o gynghorydd. Roedd cyfran ychydig uwch o gynghorwyr cymuned a thref (51 y cant) yn meddwl bod ganddynt lai o ddylanwad i newid pethau na'r disgwyl, o gymharu â 44 y cant o gynghorwyr prif gyngor a 45 y cant o gynghorwyr dwy het. Ar y llaw arall, roedd Prif gynghorwyr

(19 y cant) a chynghorwyr dwy het (23 y cant) yn fwy tebygol o ymateb yn gadarnhaol na chynghorwyr cymuned a thref, ac o ddweud bod ganddynt fwy o ddylanwad na'r disgwyl i newid pethau.

**Amser a dreulir ar fusnes y cyngor**

3.41 Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau a oedd yn ceisio datblygu dealltwriaeth o faint o amser y mae gwahanol gynghorwyr yn ei dreulio yn cyflawni eu rôl yn ystod wythnos waith arferol. Gofynnwyd yn gyntaf i'r ymatebwyr beth oedd eu disgwyliad, pan oeddent yn ystyried bod yn gynghorydd, o ran yr oriau y byddai'n rhaid iddynt eu neilltuo i'r rôl bob wythnos. Gofynnwyd wedyn iddynt nodi'r union oriau maent yn eu treulio bob wythnos yn ymgymryd â busnes y cyngor.

3.42 Dywedodd tua hanner yr holl ymatebwyr (49 y cant) mai 10 awr neu lai bob wythnos oedd eu disgwyliad, pan oeddent yn ystyried bod yn gynghorydd, o ran yr amser y byddai ei angen i ymgymryd â'r rôl. Roedd ychydig llai nag un o bob pump (17 y cant) yn disgwyl i gynghorwyr weithio rhwng 11 ac 20 awr yr wythnos, ac roedd 7 y cant arall yn meddwl mai rhwng 21 a 30 awr yr wythnos oedd y ffigur. Dywedodd chwarter yr ymatebwyr nad oedd ganddynt unrhyw ddisgwyliadau o ran yr amser oedd ei angen i ymgymryd â'r rôl.

3.43 Roedd dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl math o gynghorydd yn dangos bod tua dau o bob tri (63 y cant) o gynghorwyr cymuned a thref yn disgwyl gweithio 10 awr neu lai bob wythnos, tra bo tua hanner y Prif gynghorwyr (55 y cant) a'r Cynghorwyr â 'dwy het' (51 y cant) a ymatebodd yn disgwyl ymrwymo rhwng 11 a 30 awr yr wythnos. Nid oedd gan oddeutu un o bob tri (29 y cant) o gynghorwyr cymuned a thref unrhyw ddisgwyliadau ynghylch yr oriau angenrheidiol bob wythnos, tra bo'r ffigur cyfatebol ychydig yn is ar gyfer Cynghorwyr â 'dwy het' (22 y cant) a chynghorwyr prif gyngor (17 y cant) (Tabl 8).

**Tabl 8: Gan feddwl yn ôl i'r adeg pan oeddech yn ystyried dod yn gynghorydd, beth oedd eich disgwyliadau o ran yr oriau y byddai'n ofynnol ichi eu hymrwymo i'r rôl bob wythnos?**

| Nifer yr oriau | Canran yr ymatebwyr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Pob cynghorydd | Cynghorwyr cymuned neu dref | Prif gynghorwyr | Cynghorwyr â 'dwy het' |
| 10 neu lai | 49 | 63 | 21 | 25 |
| 11-20 awr | 17 | 7 | 35 | 35 |
| 21-30 awr | 7 | <2 | 20 | 16 |
| 31-40 awr | <2 | <2 | 3 | <2 |
| Mwy na 40 awr | <2 | - | 4 | <2 |
| Dim disgwyliad | 25 | 29 | 17 | 22 |
| **Cyfanswm** | **100** | **100** | **100** | **100** |

Sylfaen: 1,280 o ymatebwyr (dewisodd 344 ymatebydd beidio ag ateb y cwestiwn hwn)

3.44 Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn faint o oriau maent yn eu treulio bob wythnos yn cyflawni'r rôl, dywedodd bron i hanner (47 y cant) eu bod yn treulio 10 awr neu lai bob wythnos, dywedodd tua un o bob pump (22 y cant) eu bod yn treulio rhwng 11 ac 20 awr, ac roedd 15 y cant arall yn gweithio rhwng 21 a 30 awr bob wythnos. Dywedodd tua un o bob pump (16 y cant) o'r ymatebwyr eu bod yn treulio 31 awr neu fwy yr wythnos yn ymgymryd â busnes y cyngor, ac roedd hanner yr ymatebwyr hynny (8 y cant) yn gweithio mwy na 40 awr yr wythnos.

3.45 Roedd dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl math o gynghorydd yn dangos bod tua dau o bob tri (69 y cant) o gynghorwyr cymuned a thref yn treulio 10 awr neu lai yn cyflawni eu rôl, tra bo tua hanner y Prif gynghorwyr (52 y cant) a'r Cynghorwyr â 'dwy het' (55 y cant) yn dweud eu bod yn gweithio rhwng 11 a 30 awr yr wythnos (Tabl 11). Roedd y ffigurau hyn yn cyd-fynd yn fras â'u disgwyliadau, wrth ystyried bod yn gynghorydd, o ran yr amser y byddai'n rhaid ei ymrwymo, fel y gwelir yn Nhabl 8. Dywedodd tua dau o bob pump o'r Prif gynghorwyr (44 y cant) a chynghorwyr dwy het (38 y cant) eu bod yn treulio 31 awr neu fwy yr wythnos yn ymgymryd â busnes y cyngor, ac o'r ffigurau hyn, dywedodd chwarter y Prif gynghorwyr (25 y cant) ac 17 y cant o'r Cynghorwyr â 'dwy het' eu bod yn gweithio mwy na 40 awr bob wythnos.

3.46 Wrth eu hystyried gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau ynghylch ymrwymiadau amser disgwyliedig a gwirioneddol y cynghorwyr a ymatebodd i'r arolwg yn ategu'r canfyddiadau cynharach nad oedd Prif gynghorwyr, na chynghorwyr cymuned a

thref, yn barod ar gyfer y pwysau gwaith yr oedd disgwyl iddynt ei gyflawni, a bod y gofynion maen nhw'n eu hwynebu a'r amser sy'n cael ei ymrwymo i waith y cyngor wedi cynyddu.

**Tabl 9: Faint o amser ydych chi'n ei dreulio bob wythnos ar fusnes y cyngor?**

| Nifer yr oriau | Canran yr ymatebwyr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Pob cynghorydd | Cynghorwyr cymuned neu dref | Cynghorwyr prif gyngor | Cynghorwyr â 'dwy het' |
| 10 awr neu lai | 47 | 69 | 4 | 7 |
| 11 - 20 awr | 22 | 23 | 20 | 19 |
| 21 - 30 awr | 15 | 6 | 32 | 36 |
| 31 - 40 awr | 8 | <2 | 19 | 21 |
| Mwy na 40 awr | 8 | <2 | 25 | 17 |
| **Cyfanswm** | **100** | **100** | **100** | **100** |

Sylfaen: 1,282 o ymatebwyr (dewisodd 342 ymatebydd beidio ag ateb y cwestiwn hwn)

3.47 Gofynnwyd i'r ymatebwyr sut maent yn rheoli'r amser maent yn ei neilltuo ar gyfer gwaith y cyngor, er enghraifft ymateb i ymholiadau gan aelodau o'r cyhoedd neu gynnal cymorthfeydd cynghorwyr. O blith y 1,257 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, dywedodd y mwyafrif (66 y cant) eu bod ar gael 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, a dim ond 4 y cant o'r ymatebwyr ddywedodd eu bod wedi pennu amseroedd penodol i etholwyr allu cysylltu â nhw. Cafwyd amrywiaeth o ymatebion gwahanol gan y 31 y cant o gynghorwyr a oedd yn weddill, gan gynnwys eu bod yn ystyried y rôl yn un hyblyg lle gellid delio ag ymholiadau ad-hoc, yn bennaf dros e-bost neu drwy gyfryngau cymdeithasol 'yn ôl yr angen'; eu bod yn neilltuo amser i gyd-fynd ag ymrwymiadau gwaith a'r cartref; ac, oherwydd eu bod mor amlwg yn y gymuned, bod modd i drigolion godi unrhyw faterion fel y bo'r galw.

3.48 Pwysleisiodd y Prif gynghorwyr fod eu rôl a'u llwyth gwaith o ddydd i ddydd yn amrywio'n fawr bob wythnos, gan ddibynnu ar natur eu gwaith ar y pryd – er enghraifft, mynychu cyfarfodydd pwyllgor a ffurfiol y cyngor, delio â gwaith achos ac ateb ymholiadau etholwyr. Roedd hefyd yn amrywio'n fawr yn ôl y math o rolau oedd ganddynt yn y cyngor.

3.49 Roedd tystiolaeth o'r arolwg yn dangos mai un o bryderon penodol cynghorwyr yn gyffredinol yw'r ymrwymiadau amser a'r llwyth gwaith cynyddol y mae'r rôl yn galw amdanynt. Roedd nifer o gynghorwyr yn disgrifio eu gwaith fel swydd 24 awr heb

fawr ddim ffiniau, os o gwbl, ac roedd llawer yn ei chael yn fwyfwy anodd cadw bywyd y cyngor ar wahân i’w bywyd preifat, fel y dywedodd y cynghorwyr hyn:

*Mae pobl wedi cysylltu â mi droeon yn ystod oriau mân y bore ac yn hwyr y nos (Cynghorydd Dwy Het)*

*Mae’n siŵr na ddylwn i fod ar gael mor aml ag ydw i, mae ein hamser ni fel teulu’n dioddef weithiau ac rwy’n cael trafferth rhoi’r gwaith i gefn fy meddwl [...]. (Prif gynghorydd)*

*Rydw i’n gorfod cymryd gwyliau blynyddol o fy swydd i gyflawni tasgau’r cyngor; rydw i’n aml yn colli amser gyda'r teulu er mwyn mynd i gyfarfodydd. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Rydw i’n dda iawn am jyglo pethau, ond alla i ddim dychmygu gwneud y rôl gyda theulu ifanc. Mae’n dreth ar amser teuluol. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

3.50 Roedd Cynghorwyr cymuned neu dref yn gweld hyn mewn golau mwy cadarnhaol, gyda nifer o gynghorwyr yn dweud fod y ffaith eu bod mor amlwg yn y gymuned a’i bod yn hawdd cysylltu â nhw yn eu helpu i reoli eu hymrwymiadau amser a’u gwaith o ddydd i ddydd:

*Rwy’n amlwg iawn yn fy nghymuned, ac yn gwneud yn siŵr bod y cyhoedd yn teimlo eu bod yn gallu cysylltu â mi. Yn ymarferol, mae’n hawdd iawn ei reoli. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Mewn cymuned fach lle mae’r rhan fwyaf o bobl yn adnabod ei gilydd, mae cynghorwyr cymuned yn amlwg ac ar gael bob amser. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Gan ein bod ni’n byw mewn pentref bach, mae’n bosibl cysylltu â mi pan fydd problemau’n codi ac mae modd fy ngweld i’n crwydro o amgylch ein cymdogaeth yn rheolaidd. Rydw i’n deall ac yn ymwybodol o'r hyn sy’n digwydd yn y pentref. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

3.51 Roedd tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod llawer o gynghorwyr yn teimlo eu bod dan ormod o bwysau ac yn cael trafferth cyflawni holl ofynion eu rôl bresennol, fel y pwysleisiodd un Prif gynghorydd sydd wedi penderfynu rhoi’r gorau i fod yn aelod etholedig:

*Rydw i wedi ymlâdd. Dyna pam ydw i'n gadael y cyngor yng nghanol fy mhumdegau!!! (Prif gynghorydd)*

3.52 Dywedodd ymatebwyr hefyd ei bod yn mynd yn fwyfwy anodd i gynghorwyr gynnal eu hymrwymiadau gwaith ochr yn ochr â chyfrifoldebau teulu a swydd lawnamser, fel y pwysleisiodd y Cynghorwyr cymuned neu dref hyn:

> *Dydw i ddim yn ymdopi'n dda. Doeddwn i ddim yn sylweddoli ei fod yn gymaint o waith, ac mae gwneud hynny ochr yn ochr â swydd lawnamser yn anodd dros ben. Dydw i ddim yn gwybod a oes unrhyw ganllawiau safonol ynghylch faint o amser ddylwn i ei dreulio ar hyn? Ond rydw i wedi gweld rhai cynghorwyr yn gwneud dim, ac i eraill mae wedi difetha eu priodas oherwydd eu bod yn treulio cymaint o amser ar y gwaith. Felly, oes. Mae angen help gyda hyn. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

> *Rydw i'n gorfod cymryd gwyliau blynyddol o fy swydd i gyflawni tasgau'r cyngor; rydw i'n aml yn colli amser gyda'r teulu er mwyn mynd i gyfarfodydd. (Cynghorydd cymuned neu dref)*

3.53 Dywedodd llawer o gynghorwyr mai gofynion cynyddol y rôl yw un o'r prif rwystrau rhag annog wynebau newydd ac iau i sefyll mewn etholiad i fod yn aelodau etholedig.

**Profiadau cynghorwyr yn ystod pandemig Covid-19**

3.54 Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau a oedd yn canolbwyntio ar brofiadau cynghorwyr o weithio yn ystod pandemig Covid-19, gyda'r nod o ddatblygu dealltwriaeth ynghylch a oedd y rôl wedi newid o gwbl yn ystod y cyfnod hwn.

3.55 Gofynnwyd yn gyntaf i'r ymatebwyr a oeddent yn gweithio'n rheolaidd gartref ar waith y cyngor cyn pandemig Covid-19. O blith y 1,233 o gynghorwyr a atebodd y cwestiwn hwn, dywedodd tri o bob pump (60 y cant) eu bod yn gwneud hynny, a dywedodd y gweddill nad oeddent yn gwneud hynny.

3.56 Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd yn gweithio gartref yn rheolaidd cyn y pandemig ddweud tua faint o oriau yr wythnos yr oeddent yn eu treulio'n gweithio gartref. Dywedodd tua thri o bob pump (59 y cant) eu bod yn arfer gweithio 10 awr neu lai gartref bob wythnos, a dywedodd ychydig dros chwarter (28 y cant) eu bod yn gweithio rhwng 11 ac 20 awr. Dywedodd tua un o bob 10 o'r ymatebwyr (9 y cant) eu bod yn treulio rhwng 21 a 30 awr yr wythnos yn gweithio gartref cyn y

pandemig, a dim ond 4 y cant ddywedodd eu bod yn gweithio mwy na 40 awr yr wythnos yn ystod y cyfnod hwnnw (Tabl 10).

**Tabl 10: Tua faint o amser yr wythnos oeddech chi'n ei dreulio'n gweithio gartref cyn pandemig Covid-19?**

| Nifer yr oriau | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| 10 awr neu lai | 59 |
| 11 - 20 awr | 28 |
| 21 - 30 awr | 9 |
| 31 - 40 awr | 2 |
| Mwy na 40 awr | 2 |

Sylfaen: 721 o ymatebwyr

3.57 Holwyd yr ymatebwyr ynghylch y trefniadau gwaith a roddwyd ar waith ar gyfer cynghorwyr yn ystod y pandemig. Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr (96 y cant) wedi defnyddio'r trefniadau a roddwyd ar waith gan awdurdodau lleol i gynnal cyfarfodydd cyngor ac i wneud gwaith y cyngor o bell, a dim ond 4 y cant o'r 1,200 o gynghorwyr a atebodd y cwestiwn hwn ddywedodd nad oeddent wedi defnyddio'r trefniadau hyn.

3.58 Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd wedi defnyddio'r trefniadau a fyddent yn dymuno gweld y trefniadau hyn yn parhau yn y dyfodol. Roedd bron i ddau o bob tri (58 y cant) o'r 1,142 o gynghorwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno, ac roedd tua un o bob tri (30 y cant) yn anghytuno. Dywedodd tua un o bob 10 (12 y cant) o'r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod.

**Tabl 11: A hoffech i'r trefniadau gwaith a roddwyd ar waith yn ystod pandemig Covid-19 barhau yn y dyfodol?**

| | Canran yr ymatebwyr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Pob cynghorydd | Cynghorwyr cymuned neu dref | Prif gynghorwyr | Cynghorwyr â 'dwy het' |
| Hoffwn | 58 | 51 | 71 | 68 |
| Na hoffwn | 30 | 37 | 16 | 18 |
| Ddim yn gwybod | 12 | 12 | 13 | 14 |
| **Cyfanswm** | **100** | **100** | **100** | **100** |

Sylfaen: 1142 o ymatebwyr (dewisodd 482 ymatebydd beidio ag ateb y cwestiwn hwn)

3.59 Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd y byddent yn hoffi gweld y trefniadau gwaith a roddwyd ar waith yn ystod pandemig Covid-19 yn parhau yn y dyfodol yn

amrywio'n fawr yn ôl math o gynghorydd. Roedd cyfran uwch o gynghorwyr prif gyngor (71 y cant) a chynghorwyr dwy het (68 y cant) yn cytuno, o gymharu â 51 y cant o gynghorwyr cymuned a thref. Dywedodd cyfran uwch o gynghorwyr cymuned a thref (37 y cant) nad oeddent eisiau i'r trefniadau hyn barhau, o gymharu ag 16 y cant o gynghorwyr prif gyngor a 18 y cant o gynghorwyr dwy het.

3.60 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr egluro eu hateb. Roedd defnyddio cwestiwn penagored yn rhoi cyfle i'r ymatebwyr gynnwys rhagor o wybodaeth i egluro pam y byddent, neu na fyddent, yn hoffi gweld trefniadau gwaith Covid-19 yn parhau. Bu'r cynghorwyr yn pwyso a mesur eu profiadau o gyflawni'r rôl yn ystod y pandemig, gan dynnu sylw at amrywiaeth o fanteision ac anfanteision gweithio o bell.

3.61 Y manteision o weithio o bell a grybwyllwyd oedd eu bod yn fwy effeithlon a chynhyrchiol a bod ganddynt fwy o reolaeth dros batrymau gwaith, a oedd yn helpu i sicrhau gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Pwysleisiodd y Cynghorwyr hefyd fod arbed amser, a fyddai'n cael ei dreulio fel arall ar deithiau hir yn ôl ac ymlaen o gyfarfodydd, hefyd yn eu galluogi i gael gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Dywedodd nifer eu bod wedi ennill oriau yn ystod y dydd, i bob pwrpas, ac y byddai treulio amser gyda'u teuluoedd neu'n delio â phroblemau etholwyr neu'r gymuned yn ffordd well o ddefnyddio'r amser hwnnw.

3.62 Yn gysylltiedig â hynny, un o'r elfennau cadarnhaol eraill a amlygwyd oedd ei bod yn cymryd llai o amser i wneud gwaith y cyngor, gyda nifer o gynghorwyr yn dweud bod llawer llai o bethau i dynnu eu sylw wrth weithio gartref o'i gymharu â swyddfeydd y cyngor neu leoliadau eraill.

3.63 Cafwyd rhywfaint o safbwyntiau cadarnhaol gan gynghorwyr ynghylch sut roedd gweithio o bell yn cynnig opsiynau mwy hyblyg i aelodau etholedig, yn enwedig i'r rheini sydd mewn swydd lawnamser, sydd â theuluoedd ifanc a chyfrifoldebau gofalu, sydd â phroblemau symudedd neu'n wael eu hiechyd, ac i gynghorwyr anabl. Awgrymodd nifer o gynghorwyr y byddai parhau â'r trefniadau gweithio o bell yn gallu gwella amrywiaeth yr aelodau etholedig, drwy wneud y rôl yn fwy deniadol ac ymarferol i ystod ehangach o grwpiau.

3.64 Eglurwyd hefyd gan nifer o'r rheini a gyfwelwyd sut roedd newid i gynnal cyfarfodydd o bell wedi cael effaith gadarnhaol ar arferion a phrosesau llywodraethu

lleol, drwy roi mwy o gyfleoedd i etholwyr a chynghorwyr gymryd rhan mewn dadleuon a thrafodaethau agored.

3.65 Ar lefel fwy ymarferol, dywedodd cynghorwyr bod eu cynghorau wedi sefydlu protocolau'n gyflym i weithio ar-lein ac wedi defnyddio gwahanol dechnolegau yn ystod y pandemig, a dywedodd llawer fod cynnal cyfarfodydd ar-lein gan ddefnyddio llwyfannau digidol fel Skype a Teams yr un mor effeithiol â chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Dywedodd y cynghorwyr hyn fod cyfarfodydd ar-lein yn fwy effeithlon mewn llawer o achosion, oherwydd bod yr agenda'n llawer mwy eglur. Pwysleisiwyd bod hyn yn galluogi aelodau i weithio mewn ffordd fwy effeithlon a phenodol. Dywedodd nifer o gynghorwyr fod newid i weithio ar-lein hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad cynghorwyr yn ystod cyfarfodydd.

3.66 Ar y llaw arall, soniodd cynghorwyr hefyd am nifer o'r anfanteision sy'n gysylltiedig â gweithio o bell. Ar lefel unigol, roedd yr anfanteision hyn yn cynnwys llai o gyswllt personol a cholli ffyrdd anffurfiol o ryngweithio ag etholwyr a chyd-gynghorwyr, yn ogystal â'r teimladau o fod yn ynysig a diffyg cysylltiad a ddaw wrth ddefnyddio mwy a mwy ar dechnolegau sgrin.

3.67 Dywedodd llawer o gynghorwyr eu bod yn teimlo ei bod hefyd yn anodd cael cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith wrth i ffiniau'r gwaith a'r cartref fynd yn fwy ac yn fwy aneglur. Roeddent yn gweithio mwy o oriau yn ystod y dydd ac yn gweld pethau'n anodd oherwydd diffyg arweiniad a chymorth wyneb yn wyneb. Er bod llawer o gynghorwyr hefyd yn croesawu'r opsiwn o beidio â gorfod teithio'n bell i fynd i gyfarfodydd a swyddfeydd y cyngor, dywedodd nifer bach fod hyn yn eu helpu i ddiffinio ffiniau 'gwaith / bywyd' wrth ymgymryd â'u rôl. Dywedwyd bod cynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith yn flaenoriaeth allweddol i'r cynghorwyr hyn wrth symud ymlaen.

3.68 Ar lefel sefydliadol, dywedodd eraill fod y newidiadau a achoswyd gan y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar eu gallu i gyflawni rhai elfennau o'u rôl, sef meithrin perthynas ag etholwyr, cyd-gynghorwyr, swyddogion y cyngor a phartneriaid a datrys problemau a gwrthdaro.

3.69 Er i gynghorwyr bwysleisio manteision gweithio o bell, gwelwyd profiadau cymysg yn yr arolwg, y gellid eu priodoli'n rhannol i'r gwahanol lefelau o fynediad a oedd

gan gynghorwyr at dechnoleg addas cyn y pandemig a hefyd eu profiadau amrywiol wrth ddefnyddio technoleg i weithio o bell, yn ogystal â sgiliau technegol mwy sylfaenol.

3.70 Dywedodd nifer o gynghorwyr nad oedd ganddynt y sgiliau a’r wybodaeth i ddefnyddio technoleg gartref ar ddechrau’r pandemig, a’u bod felly wedi cael trafferth cyflawni eu rolau’n effeithiol wrth weithio o bell. Er hynny, roedd llawer o’r cynghorwyr hyn yn cydnabod manteision gweithio o bell, ac yn cydnabod y ffaith ei fod wedi eu galluogi i gadw mewn cysylltiad â chyd-gynghorwyr ac etholwyr. Yn gysylltiedig â’r pwynt hwn, pwysleisiodd nifer o gynghorwyr bwysigrwydd cydnabod gwahaniaethau unigol o ran sgiliau a gwybodaeth wrth addasu i drefniadau gweithio o bell. Tynnwyd sylw hefyd at ddiffyg mynediad at dechnolegau priodol fel problem benodol, yn enwedig i gynghorwyr mewn ardaloedd gwledig lle mae'r ddarpariaeth band eang yn wael.

3.71 At ei gilydd, roedd barn cynghorwyr am weithio o bell yn amrywiol iawn, gyda llawer yn gweld manteision trefniadau gwaith mwy hyblyg a mynediad haws, ond hefyd yn cydnabod yr anfanteision sy’n gysylltiedig â diffyg rhyngweithio personol, wyneb yn wyneb.

3.72 Er bod nifer bach o gynghorwyr braidd yn betrus am y posibilrwydd y bydd trefniadau gweithio o bell yn parhau yn y dyfodol, roedd cynghorwyr ar y cyfan o blaid cadw rhywfaint o drefniadau gweithio hybrid neu o bell ar ôl COVID-19 er mwyn bodloni’r galw cynyddol am hyblygrwydd.

**Annog pobl eraill i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth leol**

3.73 Roedd yr arolwg yn gofyn i’r ymatebwyr a fyddent yn annog pobl eraill i fod yn gynghorydd. O blith y 1,189 o gynghorwyr a atebodd y cwestiwn hwn, dywedodd y mwyafrif (80 y cant) y byddent yn annog pobl eraill i sefyll i gael eu hethol yn gynghorydd, a dim ond 6 y cant o’r ymatebwyr ddywedodd na fyddent yn gwneud hynny. Dywedodd tua un o bob 10 o’r ymatebwyr (12 y cant) nad oeddent yn gwybod.

3.74 Gofynnwyd i’r holl ymatebwyr (heblaw am y rheini a atebodd ‘ddim yn gwybod’) egluro eu hateb. Roedd defnyddio cwestiwn penagored yn rhoi cyfle i’r ymatebwyr

gynnwys rhagor o wybodaeth i egluro pam y byddent, neu na fyddent, yn annog pobl eraill i fod yn gynghorydd.

3.75 Dywedodd nifer o ymatebwyr ar draws y tri math o gynghorydd fod cael eu hethol yn ‘fraint’, a’u bod yn annog pobl eraill i roi eu henw gerbron i wasanaethu. Dywedodd eraill fod bod yn gynghorydd yn waith anodd, a oedd yn gofyn am allu i gydbwyso ymrwymiadau’r cyngor a’r blaid â bywyd personol a gwaith proffesiynol, ond bod gallu cyflawni ar ran y gymuned yn ei wneud yn brofiad 'gwerth chweil’ sy’n ‘rhoi boddhad’.

3.76 Soniwyd yn gyson hefyd am y gred eu bod yn ‘gwneud gwahaniaeth’ i ansawdd bywyd mewn cymunedau lleol, ac roedd ymdeimlad cryf ymysg cynghorwyr o ‘roi rhywbeth yn ôl i’r gymuned’ lle’r oeddent yn byw.

3.77 Cydnabuwyd yn eang fod y diffyg amrywiaeth yn y boblogaeth bresennol o gynghorwyr yn problem, gyda phob math o gynghorydd yn pwysleisio’r angen i ddenu ac annog ymgeiswyr ifanc ac o oedran gweithio, yn enwedig mwy o fenywod a chynrychiolwyr ar ran lleiafrifoedd ethnig, i sefyll mewn etholiad er mwyn gwella cydbwysedd oedran, rhyw a chymdeithasol y boblogaeth gyffredinol o gynghorwyr. Roedd Prif gynghorwyr, Cynghorwyr cymuned neu dref a chynghorwyr dwy het yn rhannu’r farn honno, fel y mae’r dyfyniadau hyn yn dangos:

*Dylai cyngor fod yn amrywiol ym mhob agwedd er mwyn cael sefydliad iach a chadarn. (Cynghorydd cymuned neu dref)*

*Mae angen annog aelodau iau o gymunedau i gymryd rhan, yn ogystal ag annog pobl o gefndiroedd a phrofiadau amrywiol i gynnig eu sgiliau a’u dealltwriaeth er budd y gymuned (Cynghorydd cymuned neu dref)*

*Mae amrywiaeth ymysg cynghorwyr yn druenus o ddiffygiol. Fel cynghorydd anabl, fe hoffwn i weld mwy o gynghorwyr ag anableddau’n dod ymlaen, ac rwy’n gweithio gydag Anabledd Cymru i geisio sicrhau hyn. Mae angen mwy o fenywod arnom ni, mae angen pobl iau arnom ni. [...] mae’n bwysig bod mwy o bobl na fyddent wedi ystyried sefyll ar gyfer y cyngor yn cael eu hannog i wneud hynny. (Prif gynghorydd)*

*Mae angen amrywiaeth eang o brofiadau a safbwyntiau er mwyn i’r Cyngor allu cyflawni ei swyddogaethau’n briodol ar gyfer y gymuned. (Cynghorydd Dwy Het)*

*ar hyn o bryd mae'r diffyg amrywiaeth yn ein cynghorau yn druenus [...] does neb o oedran gweithio, heb sôn am rywun ifanc. O ganlyniad i hynny, mae ymdeimlad cryf o "faffia pensiynwyr" yn y weinyddiaeth a'r wrthblaid fel ei gilydd, (Cynghorydd Dwy Het)*

3.78 Fodd bynnag, wrth alw am hynny, nodwyd rhai o'r rhwystrau sy'n atal ymgeiswyr posibl rhag sefyll – gan gynnwys natur y rôl, y gofynion amser a maint a chymhlethdod y gwaith dan sylw, ac agweddau ariannol y rôl:

*Mae rôl cynghorydd yn hanfodol i ddemocratiaeth; ond, mae ffactorau ariannol yn rhwystro pobl ifanc a phobl sydd heb ymddeol rhag bod yn gynghorwyr. I ddenu mwy o gynghorwyr o gefndiroedd amrywiol, rhaid rhoi sylw i faterion fel cydnabyddiaeth ariannol, cyfarfodydd hygyrch a chefnogaeth. (Prif gynghorydd)*

*(Does) dim digon o bobl iau nac amrywiol yn ymwneud â gwleidyddiaeth etholedig ar lefel leol, a byddai hyn yn gwella'r broses o feddwl am atebion [...] (Mae) angen terfyn uchaf ar oedran neu gyfyngiad tri thymor er mwyn rhoi cyfle i wynebau newydd a syniadau ffres ddod yn rhan o lywodraeth leol. [...] y quid pro quo fyddai talu cyflog priodol i gynghorwyr. (Cynghorydd â 'dwy het')*

*Mae angen ymgeiswyr deallus ifanc arnom ni, yn hytrach na hen bobl sy'n brin o allu. [...] dydy ymgeiswyr ifanc [...] ddim yn fodlon bod yn Gynghorwyr a rhoi'r gorau i'w swydd, gan ei bod yn anodd dod o hyd i swydd newydd ar ôl pedair blynedd. (Cynghorydd â 'dwy het')*

3.79 Fodd bynnag, i nifer bach o ymatebwyr, roedd yn amlwg bod eu profiadau personol o gael eu sarhau a'u bygwth fel cynghorwyr a'r ymddygiad annerbyniol roeddent wedi'i weld tuag at gyd-gynghorwyr, wedi effeithio ar eu barn am y rôl. Dywedodd nifer ohonynt mai dyma'r prif reswm y byddent yn annog pobl eraill i beidio â sefyll am swydd etholedig.

*Mae'n waith ddi-dâl a di-ddiolch sy'n aml yn anodd, ac anaml iawn mae'n rhoi boddhad. Mae pobl yn ein cymryd ni'n ganiataol, yn teimlo eu bod nhw'n gallu taflu gwawd atom ni, ac mae ganddyn nhw ddisgwyliadau afrealistig o'r hyn y gallwn ni ei gyflawni. (Cynghorydd cymuned neu dref)*

*Mae'r ymddygiad sarhaus a'r amgylchedd llawn gwenwyn yn cyfrannu at broblemau iechyd meddwl. (Prif gynghorydd)*

*Mae Cynghorwyr yn cael eu bwlio ar lefel nad ydw i erioed wedi'i phrofi o'r blaen mewn unrhyw ran o fywyd. (Prif gynghorydd)*

*Mae'n meddiannu eich bywyd. Straen yn sgil cwynion a disgwyliadau afresymol trethdalwyr. (Cynghorydd â 'dwy het')*

*Mae ein cyngor cymuned wedi mynd yn lle mor annymunol, fydda i ddim yn sefyll i gael fy ailethol. Does dim cefnogaeth o gwbl ar gael i ni. (Cynghorydd â 'dwy het')*

3.80 Pwysleisiodd nifer o gynghorwyr yn benodol fod effaith negyddol cyfryngau cymdeithasol o ran ymestyn yr ymddygiad sarhaus a bygythiol a lledaenu camwybodaeth ar-lein wedi dylanwadu ar eu barn am annog pobl eraill i sefyll ai peidio.

**Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

3.81 Wrth gael eu holi am eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol fel cynrychiolwyr etholedig, dywedodd tua thri o bob pump o'r ymatebwyr (61 y cant) eu bod yn bwriadu sefyll i gael eu hailethol yn yr etholiadau llywodraeth leol yn 2022 (a oedd yn digwydd ar ôl i waith maes yr arolwg gael ei gynnal), ac ychydig llai nag un o bob pump (16 y cant) ddywedodd nad oeddent yn bwriadu sefyll i gael eu hailethol. Doedd ychydig llai na chwarter y 1,171 o gynghorwyr a atebodd y cwestiwn hwn ddim wedi penderfynu.

3.82 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a ddywedodd nad oeddent yn bwriadu sefyll i gael eu hailethol egluro eu hateb mewn cwestiwn dilynol, penagored.

3.83 Rhoddodd y cynghorwyr nifer o resymau a oedd, yn ôl pob golwg, yn rhai cyffredin ar draws pob math o gynghorydd, ac yn cynnwys y canlynol:

- Yn rhy hen neu'n ymddeol
- Yn camu i'r naill ochr i wneud lle i gynghorwyr newydd
- Mae'n cymryd gormod o amser
- Yn teimlo'n rhwystredig ac yn siomedig
- Wedi gweld / profi ymddygiad sarhaus ac ymddygiad amhroffesiynol arall
- Problemau iechyd
- Yn symud o'r ardal

- Ymrwymiadau teuluol
- Y rôl yn niweidiol i iechyd meddwl
- Yn teimlo’n rhwystredig ynghylch y diffyg dylanwad / grym

## 4. Cydnabyddiaeth Ariannol

4.1 Roedd yr arolwg yn cynnwys set o gwestiynau am y gydnabyddiaeth ariannol y mae cynghorwyr yn ei derbyn fel rhan o'u rôl, a'r lwfansau a'r treuliau ychwanegol y mae ganddynt hawl i'w hawlio. Roedd y cwestiynau wedi cael eu teilwra ar gyfer pob math o gynghorydd er mwyn adlewyrchu'r gwahanol gyflogau a lwfansau y mae gan gynghorwyr prif gyngor, Cynghorwyr cymuned neu dref, a chynghorwyr 'dwy het' hawl iddynt.

4.2 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) sy'n gyfrifol am bennu'r lefelau a'r trefniadau ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol aelodau prif gynghorau, cynghorau cymuned a thref, awdurdodau parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

4.3 Yn achos prif gynghorau, mae hyn yn cynnwys cyflog sylfaenol sy'n cael ei dalu i bob aelod etholedig (ar sail cyfwerth ag amser llawn – 3 diwrnod yr wythnos), yn ogystal â thaliadau i aelodau sydd â chyfrifoldebau uwch, fel arweinydd, dirprwy arweinydd, aelod o'r weithrediaeth a chadeirydd pwyllgor. Mae'r Panel hefyd wedi'i gwneud yn bosibl i aelodau etholedig hawlio unrhyw gostau teithio neu gynhaliaeth sy'n dod i'w rhan ar fusnes swyddogol, ac i gael ad-daliad am gostau gofal plant neu ofal am oedolyn dibynnol.

4.4 Yn 2021, cynhaliodd y Panel adolygiad o'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru. O dan y fframwaith, mae gan gynghorwyr cymuned a thref hawl i daliad sylfaenol o £150 y flwyddyn ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â'u rôl (gan gynnwys defnydd o ffôn, technoleg gwybodaeth a defnyddiau traul ac ati). Gall cynghorau cymuned a thref hefyd wneud taliad blynyddol o hyd at £500 i aelodau i gydnabod cyfrifoldebau penodol (yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau), yn ogystal â rhoi cyfraniadau tuag at gostau gofal a chymorth personol i alluogi pobl sydd ag anghenion cymorth personol a/neu gyfrifoldebau gofalu i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol fel aelod o awdurdod.

4.5 Mae rhagor o wybodaeth am y lwfansau y gellir eu talu i aelodau etholedig prif gynghorau a chynghorau cymuned a thref ar gael yn yr adolygiad tystiolaeth a

gynhaliwyd fel rhan o'r rhaglen ymchwil hon, (Williams, 2021) ac yn adroddiad blynyddol drafft y Panel ar gyfer 2023-24 (Llywodraeth Cymru, 2022).

4.6 Cyn cyflwyno'r canfyddiadau ynghylch y gydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr prif gyngor a chynghorwyr cymuned a thref, a chynghorwyr dwy het, mae'n bwysig nodi mai tua thri o bob pum cynghorydd (1,170 o ymatebwyr) a ymatebodd i'r arolwg oedd wedi dewis ateb yr adran ar gydnabyddiaeth ariannol. Efallai fod hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad oedd rhai ymatebwyr yn teimlo'n gyfforddus i drafod neu ddarparu gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â lwfansau a threuliau.

4.7 O blith y 1,170 o gynghorwyr a oedd wedi ymateb, roedd ychydig mwy nag un o bob tri (67 y cant) yn gynghorwyr cymuned a thref, un o bob pump (20 y cant) yn gynghorwyr prif gyngor, ac roedd yr 14 y cant a oedd yn weddill yn gweithio fel Cynghorwyr â 'dwy het'.

**Taliadau i Aelodau Cynghorau Cymuned a Thref**

4.8 Gofynnwyd i gynghorwyr cymuned a thref a oeddent yn ymwybodol bod ganddynt hawl i gael taliad sylfaenol i weithredu a chyflawni eu dyletswyddau fel aelod o gyngor cymuned neu dref. Ychydig dros hanner y 781 o gynghorwyr a ymatebodd oedd yn ymwybodol o'r taliad sylfaenol, a dywedodd 44 y cant nad oeddent yn ymwybodol. Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oeddent yn ymwybodol bod ganddynt hefyd hawl i daliad ychwanegol ar gyfer unrhyw rolau uwch sydd ganddynt yn y Cyngor. Roedd lefelau ymwybyddiaeth o'r taliad hwn ychydig yn is, gydag oddeutu dau o bob pump o'r ymatebwyr (39 y cant) yn dweud eu bod yn ymwybodol o'r taliad hwn, ac ychydig mwy na thri o bob pump o'r ymatebwyr (61 y cant) yn dweud nad oeddent yn ymwybodol.

4.9 Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi (derbyn / hawlio) eu taliad sylfaenol ac uwch yn llawn, dywedodd tua thri chwarter yr ymatebwyr (73 y cant) nad oedd hynny wedi digwydd, a dywedodd chwarter bod hynny wedi digwydd. Dim ond 2 y cant o'r ymatebwyr oedd ddim yn gwybod.

4.10 Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys cwestiynau a oedd yn ceisio mesur ymwybyddiaeth a defnydd Cynghorwyr cymuned neu dref o'r gwahanol lwfansau a threuliau y mae ganddynt hawl iddynt (gan gynnwys cyfraniad at gostau Gofal a

Chymorth Personol, ad-daliad am gostau teithio a chynhaliaeth, ac iawndal am golled ariannol wrth gyflawni dyletswyddau cymeradwy).

4.11 Yn gyffredinol, roedd lefel uchel o ymwybyddiaeth ymysg Cynghorwyr cymuned neu dref o’r trefniadau ar gyfer hawlio costau teithio a chynhaliaeth ar gyfer cyflawni dyletswyddau cymeradwy o fewn a thu hwnt i ardal y cyngor, gydag oddeutu pedwar o bob pump o’r ymatebwyr (78 y cant) yn dweud eu bod yn ymwybodol o’r trefniadau sydd ar waith, a thua un o bob pump (22 y cant) yn dweud nad oeddent yn ymwybodol o'r trefniadau. Roedd llai o ymwybyddiaeth o lwfansau eraill, gan gynnwys iawndal am golli enillion, ad-daliad am gostau gofal ar gyfer dibynyddion a chyfraniadau tuag at gostau cymorth personol, gyda dros hanner yr holl gynghorwyr cymuned a thref yn dweud nad oeddent yn ymwybodol y gallent hawlio’r tri lwfans hyn fel rhan o’u rôl (Tabl 12).

**Tabl 12: A oeddech yn gwybod bod gan gynghorwyr cymuned a thref hawl i gael y lwfansau a'r treuliau canlynol:**

| Lwfans / cyfraniad | Canran yr ymatebwyr | |
|---|---|---|
| | Oeddwn | Nac oeddwn |
| Costau teithio a chynhaliaeth | 78 | 22 |
| Iawndal am golli enillion | 42 | 58 |
| Ad-dalu costau gofal ar gyfer dibynyddion | 45 | 55 |
| Ad-dalu costau gofal ar gyfer cymorth personol | 41 | 59 |

Sylfaen: 782 o ymatebwyr (Cynghorwyr cymuned neu dref)

4.12 Aeth yr arolwg ymlaen i ofyn a oedd Cynghorwyr cymuned neu dref, ers dod yn gynghorwyr, wedi derbyn neu hawlio unrhyw un o’r lwfansau neu’r cyfraniadau sydd wedi’u rhestru yn Nhabl 13, a gallent ddewis un o’r datganiadau canlynol:

- Wedi’u hawlio’n llawn
- Wedi hawlio rhan o'm cost
- Roedd gen i’r costau hyn ond ni wnes i eu hawlio
- Nid oedd gen i’r costau hyn

4.13 Dim ond 7 y cant o gynghorwyr cymuned a thref oedd wedi hawlio ad-daliad am gostau teithio a chynhaliaeth fel rhan o’u rôl, a dywedodd 6 y cant arall mai dim ond rhan o’r gost roedden nhw wedi’i hawlio. Dywedodd tua dau o bob pump o’r

ymatebwyr (37 y cant) eu bod wedi wynebu costau teithio a chynhaliaeth fel rhan o'u rôl, ond eu bod wedi dewis peidio â hawlio'r lwfans. Dywedodd y 51 y cant a oedd ar ôl nad oedd ganddynt y costau hyn.

4.14 Nid oedd yn ymddangos bod y darpariaethau i hawlio iawndal am golli enillion ac ad-daliad am gostau gofal ar gyfer dibynyddion a/neu gymorth personol yn cael eu defnyddio'n eang chwaith gan gynghorwyr cymuned a thref, gyda dim ond 3 chynghorydd yn dweud eu bod wedi hawlio'r costau hyn, naill ai'n llawn neu'n rhannol. O blith y Cynghorwyr cymuned neu dref a ymatebodd, dywedodd 15 y cant eu bod wedi dewis peidio â hawlio'r costau hyn er bod ganddynt hawl i wneud hynny, a dywedodd mwy na phedwar o bob pump o'r ymatebwyr (84 y cant) nad oedd ganddynt y costau hyn.

**Tabl 13: A ydych wedi adennill unrhyw rai o'r lwfansau a'r treuliau canlynol fel rhan o'ch rôl?**

| Lwfans / cyfraniad | Canran yr ymatebwyr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Wedi'u hawlio'n llawn | Wedi hawlio rhan o'm cost | Roedd gen i'r costau hyn ond ni wnes i eu hawlio | Nid oedd gen i'r costau hyn |
| Costau teithio a chynhaliaeth | 7 | 6 | 37 | 51 |
| Iawndal am golli enillion | - | - | 15 | 84 |
| Ad-dalu costau gofal ar gyfer dibynyddion a/neu gymorth personol | - | - | 9 | 91 |

Sylfaen: 768 o ymatebwyr (Cynghorwyr cymuned neu dref)

### Taliadau i Aelodau Etholedig Prif Gynghorau

4.15 Gofynnwyd i gynghorwyr prif gyngor a oeddent yn ymwybodol bod ganddynt hawl i gael taliad sylfaenol i weithredu a chyflawni eu dyletswyddau fel aelod etholedig o brif gyngor. Roedd y rhan fwyaf o'r 226 o gynghorwyr prif gyngor a atebodd y cwestiwn hwn (84 y cant) yn ymwybodol y gallent hawlio cyflog sylfaenol, ond doedd yr 16 y cant a oedd yn weddill ddim yn ymwybodol o hynny. Gofynnwyd wedyn i gynghorwyr prif gyngor a oeddent yn ymwybodol bod ganddynt hawl i gael taliadau cyflog ychwanegol ar gyfer unrhyw rolau uwch a oedd ganddynt yn y cyngor, er enghraifft cynghorwyr sy'n rhan o'r weithrediaeth, cadeiryddion pwyllgorau a / neu arweinydd yr wrthblaid. Roedd mwy na dau o bob tri o'r Prif

gynghorwyr (70 y cant) yn ymwybodol o hynny, ac ychydig llai nag un o bob tri (31 y cant) ddywedodd nad oeddent yn ymwybodol o hynny.

4.16 Pan ofynnwyd i gynghorwyr prif gyngor a oeddent wedi (derbyn / hawlio) eu cyflog sylfaenol ac uwch yn llawn, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (86 y cant) eu bod wedi, ac ychydig llai nag un o bob 10 (9 y cant) ddywedodd nad oeddent wedi hawlio'r taliadau hyn yn llawn. Doedd y 5 y cant o ymatebwyr a oedd yn weddill ddim yn gwybod.

4.17 Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys cwestiynau a oedd yn ceisio datblygu dealltwriaeth o ymwybyddiaeth a defnydd Prif gynghorwyr o'r gwahanol lwfansau a threuliau y mae ganddynt hawl iddynt (gan gynnwys costau teithio a chynhaliaeth ar gyfer cyflawni dyletswyddau cymeradwy yn ardal y cyngor a thu hwnt, ac ad-daliad am gostau gofal ar gyfer dibynyddion a/neu gymorth personol).

4.18 Roedd y mwyafrif o'r Prif gynghorwyr a atebodd y cwestiwn hwn (88 y cant) yn ymwybodol y gallent hawlio ad-daliadau am gostau teithio a chynhaliaeth, ac ychydig mwy nag un o bob 10 (12 y cant) ddywedodd nad oeddent yn ymwybodol o'r ddarpariaeth hon. Roedd ychydig llai o ymwybyddiaeth o lwfansau a chyfraniadau eraill, gydag oddeutu dau o bob tri ymatebydd (67 y cant) yn dweud eu bod yn ymwybodol y gallent hawlio ad-daliad am gostau gofal ar gyfer dibynyddion, a thri o bob pum ymatebydd (60 y cant) yn dweud eu bod yn ymwybodol y gallent hawlio ad-daliad am gostau gofal ar gyfer cymorth personol. Cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd *nad* oeddent yn ymwybodol o'r taliadau olaf hyn oedd 33 y cant a 40 y cant yn y drefn honno.

**Tabl 14: A oeddech yn gwybod bod gan gynghorwyr prif gyngor hawl i gael y lwfansau a'r treuliau canlynol:**

| Lwfans / cyfraniad | Canran yr ymatebwyr | |
|---|---|---|
| | Oeddwn | Nac oeddwn |
| Costau teithio a chynhaliaeth | 88 | 12 |
| Ad-dalu costau gofal ar gyfer dibynyddion | 67 | 33 |
| Ad-dalu costau gofal ar gyfer cymorth personol | 60 | 40 |

Sylfaen: 223 o ymatebwyr (Prif gynghorwyr)

4.19 Aeth yr arolwg ymlaen i ofyn a oedd Prif gynghorwyr (wedi derbyn / hawlio) unrhyw un o’r lwfansau neu’r cyfraniadau sydd wedi’u rhestru yn Nhabl 15, a gallent ddewis un o’r datganiadau canlynol:

- Wedi’u hawlio’n llawn
- Wedi hawlio rhan o'm cost
- Roedd gen i’r costau hyn ond ni wnes i eu hawlio
- Nid oedd gen i’r costau hyn

4.20 Dywedodd tua un o bob pum Prif gynghorydd a ymatebodd (17 y cant) eu bod wedi hawlio ad-daliad llawn am gostau teithio a chynhaliaeth fel rhan o’u rôl, a dywedodd chwarter arall o’r ymatebwyr eu bod wedi hawlio rhan o’r gost. Dywedodd ychydig llai na hanner o’r holl gynghorwyr prif gyngor (46 y cant) eu bod wedi wynebu costau teithio a chynhaliaeth fel rhan o’u rôl ond eu bod wedi dewis peidio â hawlio’r lwfans, a dywedodd tua un o bob 10 (13 y cant) nad oedd ganddynt y costau hyn.

4.21 Yn debyg i’r canlyniadau ar gyfer Cynghorwyr cymuned neu dref, roedd yn ymddangos bod Prif gynghorwyr yn gwneud llawer llai o ddefnydd o’r darpariaethau ar gyfer hawlio ad-daliad am gostau gofal ar gyfer dibynyddion a/neu gymorth personol, gyda dim ond 7 cynghorydd o blith y 213 a ymatebodd yn dweud eu bod wedi hawlio'r costau hyn, naill ai’n llawn neu’n rhannol. Dywedodd tua un o bob pum ymatebydd (18 y cant) eu bod wedi dewis peidio â hawlio’r costau hyn er bod ganddynt hawl i wneud hynny, a dywedodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr (79 y cant) nad oedd ganddynt y costau hyn.

**Tabl 15: A ydych wedi adennill unrhyw rai o'r lwfansau a’r treuliau canlynol fel rhan o'ch rôl?**

| Lwfans / cyfraniad | Canran yr ymatebwyr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Wedi’u hawlio’n llawn | Wedi hawlio rhan o'm cost | Roedd gen i’r costau hyn ond ni wnes i eu hawlio | Nid oedd gen i’r costau hyn |
| Costau teithio a chynhaliaeth | 17 | 25 | 46 | 13 |
| Ad-dalu costau gofal ar gyfer dibynyddion a/neu gymorth personol | 2 | 1 | 18 | 79 |

Sylfaen: 223 o ymatebwyr (Prif gynghorwyr)

**Taliadau i gynghorwyr 'dwy het'**

4.22 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn gynghorwyr 'dwy het' a oeddent yn ymwybodol o'u hawl i gael taliad sylfaenol. O blith y 159 o gynghorwyr a atebodd y cwestiwn hwn, dywedodd pedwar o bob pump o'r ymatebwyr eu bod yn ymwybodol, gydag un o bob pump yn dweud nad oeddent yn ymwybodol o hynny. Gofynnwyd wedyn i'r Cynghorwyr â 'dwy het' a oeddent yn ymwybodol bod ganddynt hawl i gael taliadau ychwanegol ar gyfer unrhyw rolau uwch sydd ganddynt yn y cyngor. Roedd ychydig llai na thri o bob pedwar cynghorydd (71 y cant) yn ymwybodol o hynny, a dywedodd y 29 y cant a oedd ar ôl nad oeddent yn ymwybodol.

4.23 Pan ofynnwyd i gynghorwyr dwy het a oeddent wedi (derbyn / hawlio) eu cyflog sylfaenol ac uwch yn llawn, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (86 y cant) eu bod wedi, ac un o bob 10 (10 y cant) ddywedodd nad oeddent wedi hawlio'r taliadau hyn yn llawn. Dywedodd y 4 y cant o ymatebwyr a oedd yn weddill nad oeddent yn gwybod.

4.24 Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys cwestiynau a oedd yn ceisio asesu ymwybyddiaeth a defnydd Cynghorwyr â 'dwy het' o'r gwahanol lwfansau a threuliau y mae ganddynt hawl iddynt (gan gynnwys costau teithio a chynhaliaeth ar gyfer cyflawni dyletswyddau cymeradwy yn ardal y cyngor a thu hwnt, ac ad-daliad am gostau gofal ar gyfer dibynyddion a/neu gymorth personol).

4.25 Roedd y mwyafrif o'r Cynghorwyr â 'dwy het' a atebodd y cwestiwn hwn (89 y cant) yn ymwybodol y gallent hawlio ad-daliadau am gostau teithio a chynhaliaeth, ac ychydig mwy nag un o bob 10 (11 y cant) ddywedodd nad oeddent yn ymwybodol o'r ddarpariaeth hon. Roedd ychydig llai o ymwybyddiaeth o lwfansau a chyfraniadau eraill, gydag oddeutu dau o bob tri ymatebydd (69 y cant) yn dweud eu bod yn ymwybodol y gallent hawlio ad-daliad am gostau gofal ar gyfer dibynyddion, a bron i dri o bob pum ymatebydd (58 y cant) yn dweud eu bod yn ymwybodol y gallent hawlio ad-daliad am gostau gofal ar gyfer cymorth personol. Cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd *nad* oeddent yn ymwybodol o'r taliadau olaf hyn oedd 31 y cant a 42 y cant yn y drefn honno.

**Tabl 16: A oeddech yn gwybod bod gan gynghorwyr dwy het hawl i gael y lwfansau a'r treuliau canlynol:**

| Lwfans / cyfraniad | Canran yr ymatebwyr | |
|---|---|---|
| | Oeddwn | Nac oeddwn |
| Costau teithio a chynhaliaeth | 89 | 11 |
| Iawndal am golli enillion | 41 | 59 |
| Ad-dalu costau gofal ar gyfer dibynyddion | 69 | 31 |
| Ad-dalu costau gofal ar gyfer cymorth personol | 58 | 42 |

Sylfaen: 159 o ymatebwyr (Cynghorwyr â 'dwy het')

4.26 Dywedodd hanner yr holl gynghorwyr dwy het a ymatebodd eu bod wedi hawlio ad-daliad llawn am gostau teithio a chynhaliaeth fel rhan o'u rôl, a dywedodd chwarter arall eu bod wedi hawlio rhan o'r gost. Dywedodd tua dau o bob pump o'r ymatebwyr (43 y cant) eu bod wedi wynebu costau teithio a chynhaliaeth fel rhan o'u rôl, ond eu bod wedi dewis peidio â hawlio'r lwfans. Dywedodd y 7 y cant a oedd ar ôl nad oedd ganddynt y costau hyn.

4.27 Roedd yn ymddangos bod Cynghorwyr â 'dwy het' yn gwneud llai o ddefnydd o'r darpariaethau i hawlio iawndal am golli enillion ac ad-daliad am gostau gofal ar gyfer dibynyddion a/neu gymorth personol, gyda dim ond 3 chynghorydd yn dweud eu bod wedi hawlio'r costau hyn, naill ai'n llawn neu'n rhannol. O blith y Cynghorwyr â 'dwy het' a ymatebodd, ychydig dros chwarter (27 y cant) ddywedodd eu bod wedi dewis peidio â hawlio iawndal am golli enillion, ac roedd 15 y cant o'r ymatebwyr wedi dewis peidio â hawlio ad-daliad am gostau gofal a/neu gymorth personol, er bod ganddynt hawl i wneud cais am y ddau lwfans.

**Tabl 17: A ydych wedi adennill unrhyw rai o'r lwfansau a'r treuliau canlynol fel rhan o'ch rôl?**

| Lwfans / cyfraniad | Canran yr ymatebwyr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Wedi'u hawlio'n llawn | Wedi hawlio rhan o'm cost | Roedd gen i'r costau hyn ond ni wnes i eu hawlio | Nid oedd gen i'r costau hyn |
| Costau teithio a chynhaliaeth | 25 | 25 | 43 | 7 |
| Iawndal am golli enillion | 1 | - | 27 | 72 |
| Ad-dalu costau gofal ar gyfer dibynyddion / cymorth personol | 1 | 1 | 15 | 83 |

Sylfaen: 157 o ymatebwyr (Cynghorwyr â 'dwy het')

4.28 Gofynnwyd wedyn i bob cynghorydd rannu eu profiadau o hawlio lwfansau a chydnabyddiaeth ariannol fel rhan o'u rôl. Roedd y cwestiwn hwn yn gyfle i gael ymateb penagored er mwyn cofnodi'r holl brofiadau a safbwyntiau.

4.29 Ar sail yr ymatebion a ddarparwyd, roedd yn amlwg bod y cwestiwn ynghylch lwfansau a threuliau cynghorwyr yn dal yn destun cryn ddadlau ar lefel leol. Pwysleisiodd nifer mawr o gynghorwyr, yn enwedig y rheini o gynghorau cymuned a thref, eu bod yn aml yn wynebu beirniadaeth gan etholwyr a'r cyhoedd ynghylch y lwfansau a'r treuliau sy'n cael eu talu i aelodau etholedig. Yn sgil hynny, roedd yn ymddangos bod amharodrwydd anochel ymysg cynghorwyr i hawlio'r hyn yr oedd ganddynt hawl iddo oherwydd bod arnynt ofn ymddangos eu bod yn 'troi'r dŵr i'w melin eu hunain', ac er mwyn osgoi'r cyhuddiadau cyfarwydd mai 'i'r pant y rhed y dŵr', fel y mae'r dyfyniadau hyn yn dangos:

*Ni wnaiff cynghorwyr hawlio unrhyw fath o dreuliau oherwydd ei fod yn edrych yn wael i'r etholwyr. Gall hyn hefyd eich gadael ar eich colled, ac mae angen edrych ar hynny. (Prif gynghorydd)*

*Gan fod Cynghorwyr sydd â mwy o arian na fi yn gwrthod cymryd hyn, ac yna'n brolio ynghylch hynny i'r etholwyr, mae cymryd pob ceiniog yn creu ofn y bydd pobl yn dweud fy mod i'n farus ac yn ceisio mynnu fy nghelc. (Cynghorydd Dwy Het)*

4.30 Pwysleisiwyd hefyd y stigma sy'n gysylltiedig â chydnabyddiaeth ariannol, gyda nifer o gynghorwyr cymuned a thref yn rhannu profiadau o gyd-gynghorwyr ac etholwyr yn eu cywilyddio am dderbyn arian cyhoeddus, yn enwedig yn ystod cyfnodau pan oedd ymdrechion i geisio gwneud arbedion ariannol:

*Wnes i ddim ei hawlio, achos dydw i ddim eisiau i bobl ddweud fy mod i'n gwneud hyn dim ond oherwydd yr arian. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Mewn 5 mlynedd, rwyf wedi derbyn dau daliad blynyddol y bu'n rhaid i mi ofyn amdanynt (ar ôl i mi fod yn un o gyfarfodydd fforwm y Cyngor Tref a Chymuned, lle cafwyd gwybodaeth ac arweiniad gan y Panel Taliadau Annibynnol). Y tro cyntaf i mi ofyn, cafodd y siec ei darllen yn uchel er mwyn cael ei chymeradwyo, ac fe wnaeth y cynghorwyr i mi deimlo cywilydd am gymryd y lwfans o £150. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Mae gen i ormod o gywilydd hawlio lwfans gofal (Cynghorydd Dwy Het)*

4.31 Roedd yn ymddangos bod diwylliant hefyd o osgoi lwfansau a threuliau, gyda llawer o gynghorwyr cymuned yn dweud eu bod ‘yn dilyn y norm’ drwy beidio â hawlio, a’u bod wedi cael cyngor gan gynghorwyr eraill i beidio â gwneud hynny mewn llawer o achosion.

4.32 Roedd nifer mawr o ymatebwyr yn gwrthwynebu’r syniad o gynghorwyr yn derbyn tâl am eu gwaith fel mater o drefn, gyda chynghorwyr cymuned yn arbennig yn pwysleisio bod hyn yn anghyson ag elfen ‘gwasanaeth cyhoeddus’ eu rôl. Dadl gyffredin i’r cynghorwyr hyn oedd ei bod yn rôl wirfoddol ac na ddylai cynghorwyr gael eu talu am y ‘fraint’ o wasanaethu eu cymuned, fel y pwysleisia’r cynghorydd yma:

> *Wnes i erioed ofyn y cwestiwn. Dw i'n gweld rôl Cyngor Cymuned fel rhywbeth gwirfoddol ac sy’n fraint. Unwaith y bydd ‘gwobr’, bydd y rôl yn agored i gyhuddiadau o ‘fynnu eich celc’ ac ati, sy’n tanseilio’r holl bwynt. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

4.33 Ar draws pob categori o gynghorwyr, roedd ymdeimlad cryf hefyd y byddai’n well i unrhyw arian a fyddai’n cael ei ddarparu ar gyfer lwfansau a threuliau gael ei wario neu ei ail-fuddsoddi mewn cymunedau lleol.

4.34 Er gwaethaf y safbwyntiau hyn, roedd nifer bach o gynghorwyr cymuned yn amddiffyn y system bresennol ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr, ac yn dadlau bod rôl cynghorydd cymuned yn arbennig wedi newid bellach o fod yn rôl draddodiadol ran-amser, ddi-dâl i rôl lawnamser a ‘phroffesiynol’ ym marn y cynghorwyr, sy’n cynnwys amrywiaeth o weithgareddau a chyfrifoldebau. Roedd llawer o’r cynghorwyr hyn yn gweld gwerth i allu hawlio cymorth, fel y lwfansau gofalwyr, i’w galluogi i gyflawni eu rolau’n effeithiol.

> *Fe ddechreuais i hawlio’r taliad bach flwyddyn yn ôl oherwydd fy mod i eisiau cefnogi’r syniad y dylai pobl ei hawlio. Does dim angen y taliad arna i, ond doeddwn i ddim eisiau i gynghorydd mwy newydd (ac sydd â llai o arian o bosibl) deimlo ei fod yn methu ei hawlio. Roedd diwylliant o beidio â hawlio yn y cyngor. Ond mae'n costio i fod yn gynghorydd, ac nid yw'n iawn disgwyl i bobl beidio â’i hawlio. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

4.35 Yn gysylltiedig â hynny, teimlwyd hefyd yn fwy cyffredinol y byddai darparu system cydnabyddiaeth ariannol mwy effeithiol hefyd yn annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiad:

*Dydw i ddim yn meddwl bod digon o ddealltwriaeth o’r hyn sydd ei angen i gyflawni rôl gyda'r cyngor yn dda, yn enwedig ar lefel uwch. Fyddwn i byth wedi gallu parhau â fy ngyrfa gan fod angen bod ar gael, a doedd cael amser i ffwrdd i fynd i gyfarfodydd ddim yn ymarferol. Cafodd effaith ddifrifol ar sefyllfa ariannol y teulu am flynyddoedd lawer, wrth i fy nghyflog i ostwng o £50,000 i £14,000. Rydw i’n awr yn cael cyfarfodydd â swyddogion sydd ar £120,000, ond eto fi sy’n cyfweld â nhw neu’n cymeradwyo adroddiadau. (Prif gynghorydd)*

*Mae angen addysgu’r cyhoedd hefyd ynghylch yr ystod eang o wybodaeth a sgiliau sydd eu hangen i fod yn gynghorydd da, ac mae angen iddyn nhw ofyn yn onest i’w hunain a yw’r gydnabyddiaeth ariannol yn deg os ydyn nhw eisiau i gynghorwyr fod ar gael, neu sefyll hyd yn oed. Efallai na fydd ymgeiswyr da ac ymgeiswyr iau sydd â theuluoedd a gyrfaoedd yn gwneud hynny, sy’n golygu mai dim ond pobl hŷn wedi ymddeol a fydd yn sefyll, neu aelodau hunangyflogedig neu gyfoethog o’r cyhoedd. Mae’n cymryd oriau ac oriau i wneud y rôl yn iawn, mae’n cael effaith negyddol ar fywyd teuluol, mae’r rhan fwyaf o’ch nosweithiau’n gallu mynd ar hynny ac mae’n anodd iawn, am gydnabyddiaeth fach iawn gan y gymuned [...]. Fe wnes i’r penderfyniad i ddioddef yn ariannol oherwydd ei fod yn rhywbeth roeddwn i wir yn teimlo’n angerddol yn ei gylch ac yn awyddus i’w wneud. Bydd yn anodd iawn cynyddu’r gydnabyddiaeth ariannol i Gynghorwyr oherwydd dydy’r cyhoedd ddim yn deall y gwaith, ac mae Cynghorwyr gwael yn rhoi enw drwg i bob un ohonom ni. (Prif gynghorydd)*

## 5. Cyfarpar

5.1 Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau am y cyfarpar a'r adnoddau mae cynghorwyr yn eu defnyddio neu sydd ar gael iddynt fel rhan o'u rôl.

5.2 O blith y 1,156 o gynghorwyr a atebodd y cwestiwn hwn, dywedodd ychydig llai na dau o bob tri ymatebydd (63 y cant) nad oeddent wedi cael unrhyw gyfarpar i wneud eu gwaith, gyda 36 y cant o'r ymatebwyr yn dweud eu bod wedi cael cyfarpar. Gofynnwyd wedyn i'r ymatebwyr hynny a oedd wedi derbyn cyfarpar ddweud pa fath o gyfarpar roeddent wedi'i dderbyn.

5.3 Roedd y cyfarpar a'r adnoddau yr oedd Cynghorwyr cymuned neu dref wedi'u derbyn yn cynnwys:

- Gliniadur neu ddyfais tabled;
- cyfarpar casglu sbwriel;
- llawlyfr i gynghorwyr;
- polisïau / gwaith papur y cyngor;
- cyfarpar argraffu.

5.4 Dyma'r cyfarpar a'r adnoddau a dderbyniodd Prif gynghorwyr amlaf:

- Gliniadur; dyfais tabled;
- clustffon ar gyfer cyfarfodydd ar-lein;
- ffôn symudol / ffôn clyfar;
- Band eang
- Cyfarpar swyddfa – desg / cadair;

5.5 Dywedodd y rhan fwyaf o'r 415 o ymatebwyr a dderbyniodd gyfarpar fod y cyfarpar wedi cael ei ddarparu gan y cyngor, a dim ond 6 ymatebydd ddywedodd eu bod wedi talu am y cyfarpar eu hunain. Roedd y canlyniadau'n dangos bod Prif gynghorwyr a chynghorwyr dwy het yn fwy tebygol na chynghorwyr cymuned a thref o fod wedi cael cyfarpar gan y cyngor i ymgymryd â'u rôl. O blith y 202 o gynghorwyr prif gyngor (95 y cant) a'r 150 o gynghorwyr dwy het (95 y cant) a ymatebodd, dywedodd y mwyafrif helaeth ohonynt eu bod yn defnyddio cyfarpar a

ddarparwyd gan y cyngor, mewn cymhariaeth â chyfran ychydig yn llai (86 y cant) o’r 62 o gynghorwyr cymuned a thref a ymatebodd.

5.6 Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn i ymatebwyr a oedd angen unrhyw gyfarpar ychwanegol arnynt a fyddai’n eu galluogi i gyflawni eu rôl yn fwy effeithiol. Yr ymatebion mwyaf cyffredin ar gyfer pob math o gynghorydd oedd gliniadur neu ddyfais tabled; cyfarpar argraffu neu fynediad at gyfleusterau argraffu; ffôn symudol neu ffôn clyfar; a mynediad at gymorth technegol i’w helpu i newid i weithio ar-lein. Dywedodd cynghorwyr cymuned y byddent yn elwa o gael band eang ar gyfer cyfarfodydd mewn adeiladau cymunedol; cymorth technegol cyffredinol gan y cyngor; e-bost swyddogol; a mynediad at becynnau meddalwedd a chaledwedd cyfrifiadurol.

## 6. Ymddygiad ac agweddau at gynghorwyr

6.1 Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am ymddygiad ac agweddau cyffredinol at gynghorwyr.

6.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi profi neu wedi gweld unrhyw fath o ymddygiad amhriodol wrth ymgymryd â'u rôl, naill ai gan aelodau o'r cyhoedd, gan swyddogion y cyngor neu gan gynghorwyr eraill. Diffiniwyd ymddygiad amhriodol fel unrhyw ymddygiad sy'n achosi niwsans, annifyrrwch, braw neu ofid i bobl, ac roedd hefyd yn cynnwys ymddygiad sy'n ymosodol neu'n fygythiol neu sy'n effeithio ar ansawdd bywyd unigolyn.

6.3 Yn gyffredinol, *nid* oedd cyfran fawr o'r 1,140 o gynghorwyr a atebodd y cwestiwn hwn wedi profi na gweld unrhyw fath o ymddygiad amhriodol wrth ymgymryd â'u rôl. Dywedodd pedwar o bob pump o'r ymatebwyr (81 y cant) nad oeddent, yn ystod eu cyfnod yn gweithio fel cynghorydd, wedi gweld na phrofi ymddygiad amhriodol gan *swyddogion y cyngor* (81 y cant), a dywedodd tua hanner yr ymatebwyr nad oeddent wedi dod ar draws y math hwn o ymddygiad gan *gynghorwyr* (54 y cant) nac *aelodau o'r cyhoedd* (48 y cant).

6.4 Er hynny, dywedodd tua hanner yr holl ymatebwyr (48 y cant) eu bod wedi profi neu wedi gweld ymddygiad amhriodol gan *aelodau o'r cyhoedd* wrth ymgymryd â'u rôl, ac roedd dau o bob pump a ymatebodd (41 y cant) wedi gweld neu brofi ymddygiad amhriodol gan *gynghorwyr eraill* (Tabl 18).

**Tabl 18: Ers dod yn gynghorydd, a ydych wedi profi neu weld unrhyw fath o ymddygiad amhriodol wrth ymgymryd â'ch rôl?**

| Ymddygiad amhriodol gan… | Canran yr ymatebwyr | | |
|---|---|---|---|
| | Do | Naddo | Ddim yn gwybod |
| Aelodau o'r cyhoedd | 48 | 49 | 1 |
| Swyddogion | 10 | 81 | 2 |
| Cynghorwyr | 41 | 54 | 2 |
| Arall | 3 | 33 | 3 |

Sylfaen: 1140 o ymatebwyr (dewisodd 484 ymatebydd beidio ag ateb y cwestiwn hwn)

6.5 Gofynnwyd wedyn i'r ymatebwyr hyn ddisgrifio mewn cwestiwn penagored dilynol y math o ymddygiad roeddent wedi'i weld neu ei brofi. Cafwyd dros 500 o ymatebion, a gwelwyd yn y sylwadau enghreifftiau eang o fwlio ac ymddygiad annymunol ac amhriodol tuag at gynghorwyr, gan gyd-aelodau etholedig, y cyhoedd a chan swyddogion. Gwelwyd nifer o themâu cyffredin mewn dadansoddiad pellach o'r ymatebion.

**Perthynas rhwng yr aelodau**

6.6 Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan gynghorwyr, roedd yn amlwg bod bwlio'n nodwedd gyffredin o'r berthynas rhwng yr aelodau mewn llawer o gynghorau. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod cydweithwyr wedi aflonyddu arnynt a'u bwlio, neu eu bod wedi gweld ymddygiad o'r fath tuag at gynghorwyr eraill. Soniodd y Cynghorwyr am lawer o enghreifftiau o aflonyddu a bwlio geiriol, gan gynnwys rhoi sylwadau sarhaus ac amhriodol ar gyfryngau cymdeithasol:

> *Rwy'n ymwybodol o un cynghorydd yn cyflwyno cwynion disylwedd a maleisus i'r Ombwdsmon mewn ymgyrch barhaus i danseilio cyd-gynghorwyr. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

> *Ar hyn o bryd nid yw cynghorydd cymuned [...] yn mynychu cyfarfodydd mwyach oherwydd bod grŵp o gynghorwyr cymuned yn rhoi cyfres o bostiadau yn ei herbyn ar gyfryngau cymdeithasol. Mae hi wedi gadael y blaid roedd yn arfer perthyn iddi [...] Mae postiadau yn cael eu hysgrifennu yn erbyn pob cynghorydd sy'n mynd yn groes i unrhyw un sy'n aelod o'r grŵp yma. (Cynghorydd â 'dwy het')*

6.7 Soniodd nifer o gynghorwyr am achosion o gael eu heithrio'n fwriadol o gyfarfodydd a phrosesau gwneud penderfyniadau, a chynghorwyr eraill yn dal yn ôl wybodaeth sy'n berthnasol i'w gwaith:

> *Roedd clerc blaenorol yn fy mwlio i ac eraill – yn tanseilio ein hymdrechion, yn dal gwybodaeth yn ôl, yn darparu camwybodaeth er mwyn gwneud i ni edrych yn wael. Mae cynghorwyr yn torri ar fy nhraws i, yn gweiddi arna i, yn gwrthod gadael i mi siarad, yn cadw gwybodaeth yn ôl, yn trefnu cyfarfodydd maen nhw'n gwybod na alla i fod yn bresennol ynddyn nhw oherwydd ymrwymiadau eraill, ac yn amharchus. (Cynghorydd cymuned neu dref)*

> *Mae cynghorwyr yn bwlio – yn gweiddi, yn torri ar draws, yn dal gwybodaeth yn ôl, yn cynnal cyfarfodydd ar adegau sy'n anaddas i rai cynghorwyr (yn ystod oriau gwaith*

*arferol), yn rhwystro cynghorwyr rhag mynychu cyfarfodydd (yn cloi cyfarfodydd o bell fel na allwch ymuno). (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

6.8 Darparwyd nifer o enghreifftiau hefyd o ymddygiad amhriodol mewn cyfarfodydd, fel gweiddi ac ymddygiad nawddoglyd gan gyd-gynghorwyr gyda'r bwriad o wangalonni neu danseilio unigolion:

*Oherwydd bod un neu ddau o'n cynghorwyr mor uchel eu cloch a gormesol mewn cyfarfodydd mae gweddill y cyngor yn ildio iddyn nhw yn y pen draw. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Roedd un Cynghorydd yn arbennig yn ymosodol iawn, yn rhwysgfawr ac yn aml yn anghwrtais tuag at gynghorwyr eraill, ac yn gwrthod derbyn penderfyniadau mwyafrifol oni bai eu bod yn cyd-fynd â'i farn ef. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Mae rhai cynghorwyr yn dominyddu cyfarfodydd gyda lleisiau croch, yn torri ar draws pobl eraill, yn gwyro oddi wrth y rheolau sefydlog eu hunain ond yn barod i herio pobl eraill am wneud hynny ac, yn gyffredinol, yn ymddwyn mewn ffordd ormesol a hunanganolog nad yw'r rhan fwyaf o Gadeiryddion yn ddigon profiadol nac yn ddigon parod i'w rheoli. Am y rheswm hwn mae bron i hanner y cynghorwyr a etholwyd yn wreiddiol, gan gynnwys fi, wedi ymbellhau. (Cynghorwyr cymuned neu dref)*

6.9 Dywedodd nifer o ymatebwyr fod ymddygiad o'r fath wedi cael effaith niweidiol ar gynghorwyr ac, mewn rhai achosion, wedi gwneud iddyn nhw ystyried ymddiswyddo neu ddewis peidio â sefyll yn yr etholiad nesaf:

*Mae rhai uwch aelodau wedi aflonyddu arna i ac wedi fy mwlio i yn ystod fy nghyfnod fel Cynghorydd, i'r graddau fy mod i wedi ystyried ymddiswyddo. Fel Cadeirydd, rydw i wedi ceisio newid ymddygiad ac estyn allan, ond mae ymddygiad ambell un yn amhosib ei newid. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Ymddygiad annymunol ac ymosodol iawn gan un Cynghorydd a charfan fach sydd wedi cael eu 'hannog/bwlio' i gefnogi hynny. Mae hyn wedi tarfu ar gyfarfodydd, wedi gadael staff yn eu dagrau, ac wedi achosi llawer o nosweithiau digwsg. Rydw i hefyd yn gorfod treulio amser ar ôl cyfarfodydd yn tawelu meddyliau Cynghorwyr, a'u darbwyllo i beidio â rhoi'r gorau iddi. Mae ymddygiad amhriodol Cynghorwyr eraill wedi achosi problemau enfawr. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

6.10 Wrth drafod y materion hyn, dywedodd llawer o ymatebwyr ei bod yn gyndyn o gwyno oherwydd eu bod yn ofni y bydd effeithiau negyddol.

6.11 Roedd tystiolaeth o'r ymatebion i'r arolwg hefyd yn dangos bod ymddygiad camdriniol a bygythiol tuag at gynghorwyr yn cael effaith sylweddol ar gynghorwyr unigol a'r bobl o'u cwmpas. Disgrifiodd llawer o ymatebwyr sut roedd eu profiadau o gael eu cam-drin wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u gallu i gyflawni eu rôl fel cynghorydd yn effeithiol.

**Ymddygiad sarhaus wedi'i dargedu**

6.12 Roedd ymddygiad sarhaus tuag at gynghorwyr yn thema a welwyd dro ar ôl tro yn yr ymatebion, gyda chynghorwyr yn dweud eu bod yn profi'r ymddygiad hwn neu'n ei weld yn rheolaidd fel rhan o'u rôl. Soniodd ymatebwyr am achosion o ragfarn a chasineb yn erbyn menywod, hiliaeth a homoffobia, ac roedd ymddygiad amhriodol tuag at gynghorwyr sy'n fenywod yn rhywbeth cyffredin iawn.

6.13 Dangosodd tystiolaeth o'r arolwg fod menywod sy'n aelodau etholedig yn aml yn wynebu rhagfarn neu gasineb yn erbyn menywod, a oedd yn cynnwys ymddygiad annerbyniol ac annymunol gyda'r bwriad o'u bychanu, eu tanseilio a'u tanbrisio:

> *Gan fod cymaint o ddynion hŷn yn rhan o fywyd cyhoeddus, mae hynny wedi arwain at sefyllfaoedd lle'r ydw i, fel menyw, wedi teimlo fy mod i'n cael fy anwybyddu, fy niystyru ac nad oes heb yn gwrando arna i. Mae yna lawer o ymddygiad 'yn y clwb' gan gynghorwyr ar lefel sirol. Mae rhai yn sâl neu'n ofalwyr a dydyn nhw ddim yn gallu cyflawni eu rôl i gynrychioli pobl a dydyn nhw ddim yn gwneud hynny, ond maen nhw'n aros i gael yr arian. Dylent sefyll i lawr. Mae angen i chi ddelio â hyn. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

> *Fe wnes i ymuno â chyngor cymuned lle'r oedd y rhan fwyaf o'r dynion, gan gynnwys y clerc, [yn] fwlis a oedd yn dangos rhagfarn a chasineb yn erbyn menywod. Doedd dim un ohonyn nhw wedi cael hyfforddiant. Roedden nhw ar y cyngor ers degawdau, a doedd ganddyn nhw ddim bwriad i fod yn unrhyw beth ar wahân i rwydwaith 'hen ddynion'. Rydw i'n bersonol wedi dioddef ymosod geiriol hefyd, ac mae pobl wedi torri ar fy nhraws i, fy anwybyddu i, fy mychanu i, ac wedi gwneud sylwadau gwawdlyd amdana i (mae'r menywod eraill ar y cyngor wedi gweld a phrofi problemau tebyg). Rhoddais wybod i'r swyddog monitro, ond cefais gyngor i fynd at yr Ombwdsmon. Gallwn weld yn adroddiadau blaenorol yr Ombwdsmon fod materion fel hyn yn anodd eu profi [...] felly*

*doeddwn i ddim yn meddwl bod pwrpas creu hyd yn oed mwy o densiwn a phryder. [...] Doedd unlle i droi ato mewn gwirionedd. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Rydw i wedi gweld mwy o ragfarn a chasineb yn erbyn menywod a rhagfarn ar sail rhyw yn fy nghyfnod byr fel Cynghorydd nag a welais i mewn 20 mlynedd o weithio ar safle adeiladu – 'Draw fan acw ydy lle'r i ferched!" Yn bennaf dynion yn torri ar fy nhraws i, ac wedyn funud yn ddiweddarach, yn dweud yr hyn ddywedais i. Piffian chwerthin pan ydw i'n siarad. (Cynghorydd Dwy Het)*

*Fel menyw, rydw i wedi profi ymddygiad ymosodol gan gynghorwyr sy'n ddynion. Rydw i'n aml yn cael fy nhrin â llai o barch na'r dynion sy'n gydweithwyr i mi, ac mae fy safbwyntiau i'n cael eu hanwybyddu neu eu diystyru'n aml. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

6.14 Dywedodd nifer o ymatebwyr hefyd eu bod wedi gweld neu brofi ymddygiad annerbyniol gan gynghorwyr hŷn neu fwy profiadol tuag at gydweithwyr iau neu rai a etholwyd yn ddiweddar.

**Diffyg cydymffurfio â safonau**

6.15 Rhoddodd y cynghorwyr enghreifftiau o fwlio nad oeddent yn cael eu herio, a lle roedd cwynion wedi'u gwneud dywedodd llawer o'r ymatebwyr nad oedd swyddogion monitro yn eu cymryd o ddifrif, ei bod yn anodd cael yr Ombwdsmon i ymchwilio i'w cwyn ac, o ganlyniad, nad oedd unrhyw gamau'n cael eu cymryd yn erbyn ymddygiad amhroffesiynol ac annerbyniol.

6.16 Roedd tystiolaeth hefyd o normaleiddio ymddygiad sarhaus tuag at gynghorwyr, a disgwyliad y dylai cynghorwyr allu delio ag ymddygiad pobl eraill a'i dderbyn fel 'rhan o'r gwaith'. Roedd llawer yn dadlau bod angen herio hyn ac yn galw am fwy o gefnogaeth i gynghorwyr, gan gynnwys hyfforddiant, arweiniad a pholisïau penodol i ddelio â'r materion hyn.

**Gwleidyddiaeth plaid**

6.17 Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod ein hymchwil yn awgrymu bod y rhyngweithio sy'n rhan o wleidyddiaeth plaid yn cael effaith negyddol ar y berthynas rhwng cynghorwyr. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr mai gwleidyddiaeth plaid oedd ar fai am lawer o'r ymddygiad annerbyniol, gyda chynghorwyr yn methu parchu safbwyntiau ei gilydd ac yn mynd yn llai ac yn llai goddefgar o safbwyntiau pobl eraill, fel y pwysleisiodd y cynghorydd yma:

*Mae rhai o'r cynghorwyr eraill yn ymddwyn yn fygythiol / bwlio. Nid yw'n lle croesawgar. Nid oes lle i wleidyddiaeth plaid mewn cyngor tref, ond mae rhai pobl yn hoffi defnyddio hynny fel arf i ddychryn, bwlio ac atal cynnydd, heb unrhyw reswm arbennig dros wneud hynny (ar draul y boblogaeth leol) (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

6.18 Darparodd y cynghorwyr rywfaint o dystiolaeth anecdotaidd o raniadau pleidiol yn eu cyngor, gan ddweud ei bod yn arferol i gynghorwyr ddangos gelyniaeth tuag at gynghorwyr o bleidiau gwahanol, a bod yn llai parod i gefnogi polisïau a rhannu gwybodaeth.

**Y rhyngweithio rhwng yr aelodau etholedig a'r swyddogion**

6.19 Rhoddodd yr arolwg hefyd rywfaint o dystiolaeth o fethiannau yn y berthynas rhwng swyddogion ac aelodau etholedig, gyda nifer o gynghorwyr yn mynegi pryder am ymddygiad swyddogion cyngor. Cafwyd enghreifftiau gan gynghorwyr prif gyngor o ymddygiad bygythiol a bwlio gan swyddogion:

*Yr arweinydd a nifer o gynghorwyr eraill yn bwlio, swyddogion yn bwlio cynghorwyr eraill." (Prif gynghorydd)*

*"Mae swyddog wedi dweud celwydd amdana i, ac wedi ceisio fy mwlio i. (Prif gynghorydd)*

6.20 Dywedodd nifer o ymatebwyr hefyd ei bod yn ymddangos bod swyddogion yn dangos llai o barch tuag at gynghorwyr, yn enwedig yn dilyn pandemig Covid-19, drwy beidio â rhannu cyngor a gwybodaeth berthnasol:

*Yn bersonol, dydw i ddim yn hoffi cynghorwyr sy'n lladd ar y cyngor ac yn ysgrifennu blogiau niweidiol, ond weithiau maen nhw'n cael eu gyrru i wneud hynny os bydd swyddogion yn rhwystro pethau – ac maen nhw yn gwneud hynny ... rydw i wedi cael uwch swyddogion yn gweithio yn fy erbyn i (fel aelod cabinet) ac yn hel clecs amdana i.*

*Roeddwn i'n teimlo hynny i'r byw yn y dyddiau cynnar – doeddwn i ddim yn barod ar gyfer lefel y gwrthwynebiad at newid ymysg rhai swyddogion. (Cynghorydd â 'dwy het')*

*Mae hi wedi mynd yn fwy ac yn fwy anodd, yn enwedig yn ystod y 18 mis diwethaf, cael ymateb prydlon neu, yn wir, unrhyw ymateb o gwbl gan swyddogion ar lefel Cyngor Sir – mae hyn wedi arwain at lawer iawn o rwystredigaeth. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Swyddogion ddim yn darparu gwybodaeth am faterion yn fy ward i, ac ddim yn ateb negeseuon e-bost ac ymholiadau. Y Cyngor yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg am faterion yn fy ward i heb roi gwybod i mi yn gyntaf. (Prif gynghorydd)*

*Mae gen i berthynas waith wych â'r rhan fwyaf o swyddogion, gan gynnwys rheolwyr ar y lefel uchaf, ond ar sawl achlysur rydw i wedi gorfod pwyso'n ddi-baid er mwyn cael y maen i'r wal, neu ddim ond i gael diweddariad syml ar achos. Mae'n rhwystredig iawn, ac yn golygu ei bod yn anodd bod yn effeithiol wrth wneud gwaith achos. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

**Ymddygiad sarhaus gan aelodau o'r cyhoedd**

6.21 Roedd ymddygiad sarhaus aelodau o'r cyhoedd tuag at gynghorwyr yn thema gref arall a ddaeth i'r amlwg yn yr ymatebion i'r arolwg. Dywedodd llawer o ymatebwyr fod cynghorwyr yn gallu dioddef yn enbyd yn sgil yr ymddygiad hwn oherwydd natur eu rôl, a bod y defnydd cynyddol o gyfryngau cymdeithasol yn golygu eu bod o dan y chwyddwydr fwy a mwy a'u bod wastad o dan lygaid barcud etholwyr a'r cyhoedd yn cyffredinol.

6.22 Ochr yn ochr â hyn, dywedodd nifer o gynghorwyr cymuned a thref a chynghorwyr dwy het fod natur gwleidyddiaeth genedlaethol a gwleidyddiaeth leol yn mynd yn fwy ac yn fwy annymunol:

*Mae lefel yr ymddygiad amhriodol gan Gynghorwyr ar rai lefelau yn y Cyngor yn syfrdanol. Maen nhw'n meddwl ei bod hi'n iawn dweud celwydd a lledaenu camwybodaeth dim ond er mwyn lladd ar aelodau'r wrthblaid. Rydw i bellach yn casáu'r amser rydw i'n ei dreulio ar y Cyngor [Tref a Chymuned] oherwydd y ffordd maen nhw'n trin pobl sy'n anghytuno â nhw. Mae'r amgylchedd mor annymunol, rwy'n gwybod ei fod wedi gwneud i bobl adael y Cyngor [Trefn a Chymuned]. (Cynghorydd â 'dwy het')*

*Mae gwleidyddiaeth yn y cyngor hwn yn wenwyn pur, ac mae swyddogion [...] yn gadael i Gynghorwyr gael eu bwlio. Gwarchod buddiannau'r Cynghorwyr sy'n llywodraethu yw*

*unig ddiddordeb y swyddogion, a dydy Cynghorwyr yr wrthblaid yn cael dim. (Cynghorydd â 'dwy het')*

*Fel pwynt cyffredinol, mae'n ymddangos bod rhai unigolion a charfannau mewn cymdeithas yn llawer llai goddefgar y dyddiau hyn, ac yn fwy parod i leisio eu barn a'u cwynion – ni waeth pa mor ddilys neu resymol ydyn nhw. Daeth rhaniadau cymdeithasol a sylwadau annifyr yn amlwg iawn yn ystod yr ymgyrchu ynghylch Brexit. (Cynghorydd cymuned neu dref)*

*Ers Covid, mae'n ymddangos bod rhai pobl wedi colli amynedd a chwrteisi (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Ymddygiad gwrthgymdeithasol gan rai aelodau o'r cyhoedd, yn enwedig ers dechrau'r pandemig a rhoi cyfyngiadau symud ar waith. (Cynghorydd â 'dwy het')*

6.23 O ganlyniad i hynny, roedd cynghorwyr yn cael eu brawychu, eu cam-drin a'u bygwth fwy a mwy ar-lein. Pwysleisiodd nifer o gynghorwyr fod y defnydd o gyfryngau cymdeithasol a chreu cymunedau digidol 'o bobl o'r un anian' yn golygu y gallai'r cyhoedd yn hawdd ddewis gweld gwybodaeth a oedd yn ategu eu barn eu hunain, sy'n creu mwy o begynnu, yn annog pobl i ddefnyddio iaith ansensitif ac ymfflamychol a diffyg parch at safbwyntiau eraill. Tynnodd y cynghorwyr sylw at nifer o enghreifftiau o aflonyddu ar gynghorwyr ac ymosodiadau arnynt ar y cyfryngau cymdeithasol:

*Ers i'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gynyddu, mae'n ymddangos bod tuedd gynyddol i feddwl y gallwch chi boeni a bwlio Cynghorwyr – mae aelodau o'r cyhoedd yn gwneud hynny, ac Chynghorwyr eraill ar adegau (yn enwedig Cynghorwyr cymuned neu dref a oedd o bosibl wedi methu cael eu hethol yn yr etholiad diwethaf ar gyfer y Fwrdeistref Sirol). (Cynghorydd Dwy Het)*

*Mae un cynghorydd wedi gwneud sylwadau gwarthus am gynghorwyr eraill ac aelodau o'r cyhoedd ar gyfryngau cymdeithasol. [...] Mae sylwadau'r cyhoedd weithiau am rai cynghorwyr ar gyfryngau cymdeithasol hefyd y tu hwnt i'r hyn y byddwn i'n ei ystyried yn dderbyniol. (Prif gynghorydd)*

*Gall rhai aelodau o'r cyhoedd fod yn sarhaus, yn enwedig ar-lein, neu wneud honiadau am onestrwydd cynghorwyr. (Prif gynghorydd)*

6.24 Mynegodd ymatebydd arall bryderon am ymddygiad amhriodol yng nghyfarfodydd y cyngor cymuned lle'r oedd cynghorwyr lleol yn cael eu sarhau'n eiriol yn arbennig, a

hefyd yn wynebu ymddygiad bygythiol gan gyd-gynghorwyr, a mynegodd llawer o ymatebwyr bryder ynghylch eu diogelwch eu hunain pan ofynnir iddynt ystyried materion cymhleth a dadleuol. Galwodd llawer o gynghorwyr am ragor o hyfforddiant a chefnogaeth ychwanegol i gynghorwyr sy'n eistedd ar y pwyllgorau hyn, i'w helpu i ddelio â'r ymddygiad sarhaus.

6.25 Soniwyd yn aml hefyd am brofiadau o ymddygiad bygythiol o fewn y gymuned, gyda nifer o gynghorwyr yn dweud bod aelodau o'r cyhoedd yn cysylltu â nhw'n rheolaidd ac nad ydynt yn cydnabod unrhyw ffin rhwng bywyd cyhoeddus a bywyd preifat cynrychiolydd etholedig. Ategodd gynghorydd dwy het bryderon nifer o'r ymatebwyr:

*Drwy gyfryngau cymdeithasol, mae pobl yn gallu cysylltu â ni 24 awr y dydd. Mae'n bosibl lledaenu camwybodaeth a honiadau maleisus drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ond ychydig iawn allwn ni ei wneud i wrthsefyll hynny heb waethygu'r sefyllfa ymhellach a'u lledaenu ymhellach drwy wneud sylw arnynt.*

6.26 Roedd nifer o gynghorwyr a'u teuluoedd wedi cael eu bygwth wrth geisio gyflawni eu rolau. Nodwyd enghreifftiau o sawl digwyddiad allan yn y gymuned a ger cartrefi cynghorwyr:

*Rwy'n ymwybodol bod aelod o'r cyhoedd wedi anfon e-bost at gynghorydd gyda'r neges fygythiol 'Rwy'n gwybod lle rydych chi'n byw'. (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Pan ges i fy ethol fe gerddodd cyn-gynghorydd rownd i'r drws cefn ac i mewn i fy nhŷ a fy mygwth am ddilyn gôl ar y cyngor doedd e ddim yn cytuno â. (Cynghorydd cymuned neu dref)*

*Rwyf wedi cael profiad o aelodau o'r cyhoedd yn gweiddi arnaf yn y stryd droeon oherwydd eu bod yn anfodlon gyda diffyg gweithredu gan y cyngor (Cynghorydd Dwy-Het)*

*Mae rhai aelodau o'r cyhoedd wedi bod yn ymosodol mewn cymhorthfa ac ar garreg y drws. (Prif gynghorydd)*

6.27 Soniodd nifer o gynghorwyr am ddigwyddiadau'n ymwneud â bygythiadau o ladd, bygythiadau o drais corfforol, ymddygiad bygythiol ac aflonyddu, ac roedd nifer o'r rhain wedi arwain at ryw fath o gysylltiad â'r heddlu, fel y mae'r dyfyniadau hyn yn dangos:

*Mae aelodau o’r cyhoedd wedi bygwth fy lladd i [...] a bu’n rhaid i mi gael gwarchodaeth gan yr heddlu. Fe gefais i fy mygwth gan ‘gyd’ gynghorydd [...]. Bydd hyn yn helpu i egluro fy ateb ynghylch a fydda i [...] yn sefyll eto!!! (Cynghorydd Tref a Chymuned)*

*Rydw i wedi derbyn bygythiadau corfforol yn bersonol [...] Yn sgil hynny fe wnes i ofyn am gymorth gan yr Heddlu ambell dro, ac roedd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cadw llygad ar fy nghartref i’n rheolaidd [...]. Bu’n rhaid gosod teledu cylch cyfyng yn fy nghartref hefyd. (Prif gynghorydd)*

*Bu’n rhaid i mi osod botwm panig yn fy nhŷ oherwydd galwadau bygythiol gan aelodau o’r cyhoedd. (Cynghorydd Dwy Het)*

**Newidiadau yn safon yr ymddygiad**

6.28 Yn dilyn y cwestiwn hwn, gofynnwyd i’r ymatebwyr a oeddent yn credu bod safon yr ymddygiad tuag at gynghorwyr yn eu hardaloedd naill ai wedi gwella, wedi aros yr un fath neu wedi gwaethygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. O blith y 1,137 o gynghorwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd tua hanner (53 y cant) yn credu bod safon yr ymddygiad wedi aros yr un fath, ychydig llai nag un o bob tri (29 y cant) yn meddwl ei fod wedi gwaethygu, a dim ond 7 y cant oedd yn meddwl bod safon yr ymddygiad wedi gwella. Dywedodd tua un o bob 10 o’r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod.

**Tabl 19: Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a ydych yn credu bod safon yr ymddygiad tuag at gynghorwyr yn eich ardal wedi:**

| | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Gwella | 7 |
| Aros yr un fath | 53 |
| Gwaethygu | 29 |
| Ddim yn gwybod | 11 |

Sylfaen: 1137 o ymatebwyr (dewisodd 487 ymatebydd beidio ag ateb y cwestiwn hwn)

6.29 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd fod safon yr ymddygiad tuag at gynghorwyr naill ai wedi gwella neu wedi gwaethygu yn ystod eu cyfnod yn y rôl egluro eu hateb mewn cwestiwn dilynol, penagored. Cafwyd tua 370 o sylwadau, gyda’r rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio ar sut oedd ymddygiad tuag at gynghorwyr wedi dirywio. Roedd y rhan fwyaf o’r sylwadau hyn yn cyfeirio at ddiffyg parch, bwlio ac aflonyddu ar gyfryngau cymdeithasol fel y prif broblemau, gyda chynghorwyr yn rhoi

enghreifftiau o'r achosion cynyddol o fygythiadau ac ymddygiad sarhaus a brawychus roeddent wedi'u profi ar-lein, gan y cyhoedd a chan gynghorwyr eraill.

6.30 Soniodd nifer o gynghorwyr hefyd am y lefelau cynyddol o begynnu mewn trafodaethau cyhoeddus ar lefel leol a oedd, ym marn llawer, wedi dwysau yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn sgil effeithiau Brexit a phandemig Covid-19, a llai o ymddiriedaeth mewn gwleidyddion a'r system ddemocrataidd drwyddi draw.

6.31 Fodd bynnag, roedd ymateb lleiafrif bach o gynghorwyr yn fwy cadarnhaol, gyda rhai'n dweud bod y defnydd o gyfarfodydd ar-lein yn ystod y pandemig wedi helpu i wella safon yr ymddygiad. Yn ddiddorol iawn, cafodd y defnydd cynyddol o adnoddau cyfryngau cymdeithasol hefyd ei fframio mewn golau mwy cadarnhaol gan nifer o gynghorwyr, a ddywedodd ei fod yn eu galluogi i fod yn amlwg yn yr ardal leol a'u helpu i ymgysylltu â chymunedau.

6.32 Roedd yr arolwg yn gofyn am farn cynghorwyr ynghylch a oedd trefniadau addas ar waith i ddelio ag unrhyw ymddygiad amhriodol roeddent yn ei weld neu ei brofi gan aelodau o'r cyhoedd, swyddogion y cyngor neu gynghorwyr eraill wrth ymgymryd â'u rôl. At ei gilydd, cafwyd ymateb cadarnhaol gan gyfran fawr o'r 1,127 o gynghorwyr a atebodd y cwestiwn hwn, gydag oddeutu tri o bob pump ymatebydd yn dweud bod trefniadau addas ar waith i ddelio ag ymddygiad amhriodol tuag at gynghorwyr gan swyddogion y cyngor (58 y cant) neu gan gynghorwyr eraill (58 y cant). Roedd cyfran yr ymatebwyr a deimlai fod trefniadau addas ar waith i ddelio ag ymddygiad amhriodol tuag at gynghorwyr gan aelodau o'r cyhoedd ychydig yn is, sef 41 y cant.

6.33 Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod rhywfaint o ansicrwydd ymysg cynghorwyr ynghylch y mater hwn. Roedd tua chwarter yr ymatebwyr (23 y cant) yn credu nad oedd trefniadau addas ar waith i ddelio ag ymddygiad amhriodol tuag at gynghorwyr gan aelodau o'r cyhoedd, a dywedodd 35 y cant arall eu bod yn ansicr. Yn yr un modd, roedd 17 y cant o'r ymatebwyr yn anghytuno bod trefniadau addas ar waith i ddelio ag ymddygiad amhriodol tuag at gynghorwyr gan gynghorwyr eraill, ac roedd 22 y cant o ymatebwyr eraill yn ansicr, gydag oddeutu un o bob 10 o'r ymatebwyr (11 y cant) yn credu nad oedd trefniadau addas ar waith i ddelio ag ymddygiad

amhriodol tuag at gynghorwyr gan swyddogion y cyngor ac ychydig dros chwarter (28 y cant) yn dweud nad oeddent yn gwybod.

**Tabl 20: A oes trefniadau priodol ar waith i ddelio ag ymddygiad amhriodol tuag at gynghorwyr gan…**

| | Canran yr ymatebwyr | | |
|---|---|---|---|
| | **Oes** | **Nac oes** | **Ddim yn gwybod** |
| Aelodau o'r cyhoedd | 41 | 23 | 35 |
| Swyddogion | 58 | 11 | 28 |
| Cynghorwyr | 58 | 17 | 22 |

Sylfaen: 1127 o ymatebwyr (dewisodd 497 ymatebydd beidio ag ateb y cwestiwn hwn)

## 7. Hyfforddi a datblygu

7.1 Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am y gweithgareddau hyfforddi a datblygu yr oedd cynghorwyr wedi ymgymryd â nhw fel rhan o'u rôl. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd eu cyngor wedi darparu unrhyw hyfforddiant cynefino i aelodau a oedd newydd gael eu hethol ar ôl yr etholiad, ac a oedd unrhyw hyfforddiant rheolaidd neu barhaus wedi cael ei gynnig fel rhan o'u rôl o ddydd i ddydd.

7.2 Cadarnhaodd ychydig llai na dau o bob tri o'r 1,131 o gynghorwyr a ymatebodd (64 y cant) eu bod wedi cael cynnig rhaglen gynefino pan gawsant eu hethol yn gynghorydd, gydag oddeutu un o bob tri (32 y cant) heb gael cynnig unrhyw hyfforddiant cynefino. Cynghorwyr cymuned neu dref oedd tua hanner yr ymatebwyr (53 y cant) a oedd wedi cael cynnig rhaglen gynefino, gydag ychydig dros chwarter (26 y cant) yn gynghorwyr prif gyngor, ac un o bob pump (20 y cant) yn gynghorwyr dwy het. O blith y 367 o gynghorwyr a oedd heb gael cynnig rhaglen gynefino, Cynghorwyr cymuned neu dref oedd y mwyafrif ohonynt (88 y cant).

7.3 Roedd y rhan fwyaf o'r 718 o gynghorwyr (93 y cant) a oedd wedi cael cynnig rhaglen gynefino wedi cwblhau'r hyfforddiant. O'r ffigur hwn, roedd tua hanner (51 y cant) yn gynghorwyr cymuned a thref, dros chwarter (28 y cant) yn gynghorwyr prif gyngor, ac un o bob pump (20 y cant) yn gynghorwyr dwy het. Gofynnwyd wedyn i'r 52 o gynghorwyr a ddywedodd nad oeddent wedi cwblhau'r rhaglen gynefino a gynigwyd iddynt egluro eu hateb mewn cwestiwn dilynol, penagored. Cafwyd ymatebion gan 44 o gynghorwyr, a chynghorwyr cymuned a thref oedd y rhan fwyaf ohonynt.

7.4 Un o'r materion allweddol a nodwyd gan gynghorwyr cymuned a thref oedd nad oedd ganddynt ddigon o amser ar gyfer hyfforddiant ac roedd nifer o gynghorwyr cymuned a thref a oedd yn gweithio'n llawn amser hefyd wedi cyfeirio at amseru anghyfleus fel rheswm allweddol dros beidio â gwneud neu cwblhau yr hyfforddiant cynefino. Roedd nifer bach o gynghorwyr cymuned a thref a oedd yn arfer gweithio mewn llywodraeth leol neu swyddi sy'n delio â'r cyhoedd, neu a oedd â phrofiad blaenorol fel cynghorwyr, yn teimlo nad oedd angen yr hyfforddiant ac yn dweud bod y penderfyniad i beidio â gwneud y rhaglen gynefino wedi bod yn un bwriadol er mwyn arbed arian i drethdalwyr.

7.5 Roedd y chwe chynghorydd dwy het a roddodd rhagor o wybodaeth hefyd wedi sôn am anawsterau wrth geisio gwneud cyrsiau cynefino, oherwydd ymrwymiadau gwaith a theuluol.

7.6 Cafwyd sylwadau amrywiol iawn ar brofiadau cynghorwyr o'r rhaglen gynefino, gydag ymatebwyr yn cynnig sylwadau cadarnhaol a negyddol. Roedd rhai'n canmol cynnwys y rhaglen gynefino, gan deimlo ei bod yn ddefnyddiol ac yn gynhwysfawr. Teimlai nifer o gynghorwyr ei bod yn well dysgu drwy brofiad a thrwy arweiniad gan gyd-gynghorwyr, er enghraifft trwy fentora anffurfiol. Yn yr un modd, dywedodd ymatebydd arall fod yr hyfforddiant cynefino a gafodd wedi bod yn briodol, ond y byddai wedi gallu cynnwys canllawiau manylach ynghylch y rôl ar gyfer cynghorwyr sydd newydd eu hethol.

7.7 Tynnwyd sylw'n rheolaidd at y cwestiwn ynghylch a ddylai hyfforddiant i gynghorwyr fod yn wirfoddol ynteu'n elfen orfodol o'u rôl. Teimlai nifer o gynghorwyr cymuned a thref fod angen creu amod i ymgymryd â hyfforddiant, yn enwedig ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

7.8 Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn i gynghorwyr a oeddent yn cael unrhyw hyfforddiant rheolaidd neu barhaus fel rhan o'u rôl. Unwaith eto, roedd y mwyafrif helaeth o'r 1,122 o gynghorwyr a atebodd y cwestiwn hwn (69 y cant) wedi cael hyfforddiant, ac ychydig dros chwarter (28%) ddywedodd nad oeddent wedi cael hyfforddiant. Roedd y math o hyfforddiant roedd y cynghorwyr wedi'i gael yn amrywio'n fawr. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod wedi cael hyfforddiant wyneb yn wyneb neu wedi cael pecyn hyfforddi neu llawlyfr.

7.9 Roedd y dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r arolwg yn awgrymu bod angen gwella'r hyfforddiant a roddir i gynghorwyr, o ran faint o hyfforddiant a gynigir a'i natur, yn ogystal â'i amseriad. Awgrymwyd nifer o feysydd hyfforddiant gan bob math o gynghorydd. Roedd y meysydd hyn yn cynnwys: materion cydraddoldeb ac amrywiaeth, gwella arferion ymgysylltu â'r gymuned, newidiadau deddfwriaethol, sgiliau TG a datblygiad personol cyffredinol. Cafodd yr angen am ragor o arweiniad ar ddelio â bygythiadau a hyfforddiant penodol ar ddiogelwch personol hefyd ei godi gan bob math o gynghorydd.

## Cyfeiriadau


McConnel, J. a Stevenson, S. (2019). *Gwerthusiad o Amrywiaeth mewn Democratiaeth: Adroddiad terfynol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 27/2019. Gwerthusiad o Amrywiaeth mewn Democratiaeth | LLYW.CYMRU

Owens, N. (2021). *Cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr ac ymgysylltiad dinasyddion â chynghorwyr: Arolwg o agweddau'r cyhoedd.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 81/2021. Ar gael yn: Cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr ac ymgysylltiad dinasyddion â chynghorwyr: arolwg o agweddau'r cyhoedd | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2022) *Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol drafft 2023 i 2024.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2023 i 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

Williams, K. (2021). *Cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr ac ymgysylltu â dinasyddion yng Nghymru: Adolygiad o dystiolaeth.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 80/2021. Ar gael yn: Cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr ac ymgysylltu â dinasyddion yng Nghymru: adolygiad o dystiolaeth | LLYW.CYMRU

## Atodiad A: Cwestiynau o’r Arolwg o gynghorwyr

**Rôl a Chydnabyddiaeth Ariannol Cynghorwyr yng Nghymru:**

**Arolwg o gynghorwyr 2021**

### Adran 1: Cefndir

Nod yr arolwg hwn yw casglu gwybodaeth a fydd yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall eich profiadau o fod yn gynghorydd yng Nghymru.

Hoffem ddiolch ichi am roi o'ch amser i lenwi’r arolwg hwn. Bydd eich ymatebion yn werthfawr o ran cynyddu amrywiaeth y bobl sydd am sefyll am swydd etholedig. Bydd yr holl ymatebion yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol, a bydd unrhyw ganfyddiadau a adroddir yn ddienw felly ni fyddwch yn cael eich adnabod.

**Bydd eich hunaniaeth yn gudd.**

**Pan ddefnyddir hunaniaeth gudd mewn arolygon, ni fydd unrhyw wybodaeth adnabyddadwy, megis math o borwr a fersiwn y porwr, cyfeiriad IP rhyngrwyd, system weithredu, neu gyfeiriad e-bost, yn cael ei storio gyda'r ateb. Bydd hyn yn diogelu hunaniaeth yr ymatebydd.**

### Adran 2: Eich rôl fel cynghorydd

Er mwyn deall eich profiad fel cynghorydd yn iawn, hoffem ofyn cwestiynau ichi am eich rôl.

| **Cwestiwn 1** |
|---|
| Pa fath o gynghorydd ydych chi? |
| **Opsiynau ymateb**<br>1. Cynghorydd sir (prif gynghorydd)<br>2. Cynghorydd cymuned neu dref<br>3. Cynghorydd sir **a** chymuned neu dref (cynghorydd â ‘dwy het’) |

| **Cwestiwn 2** |
|---|
| Pa mor hir ydych chi wedi gwasanaethu fel cynghorydd? |
| **Opsiynau ymateb**<br>1. 1-2 flynedd |

| |
|---|
| 2. 3-5 mlynedd<br>3. 6-9 mlynedd<br>4. 10-15 mlynedd<br>5. 16-20 mlynedd<br>6. 21-25 mlynedd<br>7. Dros 25 mlynedd |

| **Cwestiwn 3** |
|---|
| A oes gennych unrhyw swyddi uwch o fewn y cyngor? |
| **Opsiynau ymateb**<br>1. Arweinydd<br>2. Aelod o'r Cabinet<br>3. Cadeirydd y Cyngor<br>4. Cadeirydd Pwyllgor<br>5. Aelod o Bwyllgor<br>6. Arweinydd yr Wrthblaid<br>7. Rôl uwch arall |
| Rhowch fanylion: |
| **Opsiynau ymateb**<br>Testun |

| **Cwestiwn 5** |
|---|
| Yn ogystal â'ch gwaith fel cynghorydd, a ydych yn ymgymryd ag unrhyw un o'r canlynol: |
| **Opsiynau ymateb**<br>1. Cyflogaeth lawn amser â thâl<br>2. Cyflogaeth ran amser â thâl<br>3. Hunangyflogedig neu'n weithiwr llawrydd<br>4. Di-waith<br>5. Wedi ymddeol<br>6. Yn gofalu am y cartref / teulu<br>7. Addysg lawn amser<br>8. Arall (rhowch fanylion): |

| **Cwestiwn 6** |
|---|
| A ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgareddau gwirfoddol ochr yn ochr â'ch rôl fel cynghorydd? |
| **Opsiynau ymateb**<br>1. Ydw<br>2. Nac ydw |

| **Cwestiwn 7** |
|---|
| Disgrifiwch pa fath o weithgareddau gwirfoddol: |
| **Opsiynau ymateb**<br>Testun |

| **Cwestiwn 8** |
|---|
| Beth oedd eich prif reswm dros sefyll i fod yn gynghorydd? |
| **Opsiynau ymateb**<br>Testun |

| **Cwestiwn 9** |
|---|
| Yn eich barn chi, beth yw rôl bwysicaf cynghorydd? Dewiswch bob ateb perthnasol.. |
| **Opsiynau ymateb**<br>1. Cynrychioli barn ac anghenion trigolion lleol<br>2. Cefnogi'r gymuned leol<br>3. Gwrando ar farn y gymuned leol<br>4. Gweithio gyda thrigolion i fynd i'r afael â materion lleol<br>5. Mynychu cyfarfodydd y cyngor<br>6. Gwneud penderfyniadau neu ddylanwadu ar benderfyniadau am waith y cyngor<br>7. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion lleol<br>8. Delio â chwynion |

9. Cynnal cymorthfeydd
10. Arall (rhowch fanylion):

| Cwestiwn 10 |
|---|
| A yw eich dealltwriaeth o rôl a chyfrifoldebau cynghorwyr wedi newid o gwbl yn ystod eich cyfnod yn y rôl? |
| **Opsiynau ymateb**<br>1. Ydy<br>2. Nac ydy<br>3. Ddim yn gwybod |

| Cwestiwn 11 |
|---|
| Pam ydych chi'n dweud hynny? |
| **Opsiynau ymateb**<br>Testun |

| Cwestiwn 12 |
|---|
| Yn eich barn chi, pa mor ymwybodol yw aelodau o'r cyhoedd o'r gwahaniaeth rhwng rôl cynghorydd sir a chynghorydd cymuned neu dref? |
| **Opsiynau ymateb**<br>1. Yn ymwybodol iawn<br>2. Yn ymwybodol<br>3. Ychydig bach o ymwybyddiaeth<br>4. Ddim yn ymwybodol o gwbl |

| Cwestiwn 13 |
|---|
| O'ch profiad chi fel cynghorydd, beth yw'r camdybiaethau mwyaf cyffredin sydd gan y cyhoedd ynglŷn â'r rôl? |

**Opsiynau ymateb**

Testun

**Cwestiwn 14**

Faint o ddylanwad ydych chi'n teimlo sydd gennych fel cynghorydd?

**Opsiynau ymateb**

1. Mwy o ddylanwad i newid pethau na'r disgwyl
2. Llai o ddylanwad i newid pethau na'r disgwyl
3. Cymaint o ddylanwad â'r disgwyl
4. Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 15**

Gan feddwl yn ôl i'r adeg pan oeddech yn ystyried dod yn gynghorydd, beth oedd eich disgwyliadau o ran yr oriau y byddai'n ofynnol ichi eu hymrwymo i'r rôl bob wythnos?

**Opsiynau ymateb**

1. 10 awr neu lai
2. 11-20 awr
3. 21-30 awr
4. 31-40 awr
5. Mwy na 40 awr
6. Dim disgwyliad

**Cwestiwn 16**

Faint o amser ydych chi'n ei dreulio bob wythnos ar fusnes y cyngor?

**Opsiynau ymateb**

1. 10 awr neu lai
2. 11-20 awr
3. 21-30 awr
4. 31-40 awr
5. Mwy na 40 awr

| Cwestiwn 17 |
|---|
| Sut ydych chi'n rheoli'r amser rydych chi'n ei neilltuo ar gyfer gwaith y cyngor (er enghraifft, ymateb i ymholiadau gan aelodau o'r cyhoedd, cynnal cymorthfeydd cynghorydd ac ati)? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Mae gen i amseroedd penodol pan ellir cysylltu â mi<br>2. Rwyf ar gael 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos<br>3. Arall (rhowch fanylion): |

| Cwestiwn 18 |
|---|
| Rhowch ragor o fanylion am yr amseroedd penodol rydych ar gael i'ch etholwyr: |
| **Opsiynau ymateb** |
| Testun |

| Cwestiwn 19 |
|---|
| Tua faint o amser yr wythnos ydych chi'n ei dreulio'n gweithio ar y gweithgareddau canlynol (gellir ymgymryd â'r gweithgareddau hyn ar-lein, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb):<br>1. Paratoi ar gyfer cyfarfodydd a/neu bwyllgorau'r cyngor<br>2. Mynychu cyfarfodydd a/neu bwyllgorau'r cyngor<br>3. Ymgysylltu ag etholwyr (cymorthfeydd cynghorydd a/neu ohebiaeth)<br>4. Gweithio gyda grwpiau neu sefydliadau cymunedol<br>5. Gweithgareddau hyfforddi a datblygu<br>6. Tasgau penodol yn ymwneud â rôl uwch neu rôl ar bwyllgor<br>7. Arall (rhowch fanylion isod): |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. 10 awr neu lai<br>2. 11-20 awr<br>3. 21-30 awr<br>4. 31-40 awr<br>5. Mwy na 40 awr |

| **Cwestiwn 20** |
|---|
| Cyn pandemig Covid-19, a oeddech yn ymgymryd yn rheolaidd â busnes y cyngor gartref? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Oeddwn<br>2. Nac oeddwn |

| **Cwestiwn 21** |
|---|
| Tua faint o amser yr wythnos oeddech chi'n ei dreulio'n gweithio gartref? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. 10 awr neu lai<br>2. 11-20 awr<br>3. 21-30 awr<br>4. 31-40 awr<br>5. Mwy na 40 awr |

| **Cwestiwn 22** |
|---|
| Pa fath o waith oeddech chi'n ei wneud gartref? |
| **Opsiynau ymateb** |
| Testun |

| **Cwestiwn 23** |
|---|
| Sut mae'ch rôl o ddydd i ddydd fel cynghorydd wedi newid yn ystod pandemig Covid-19? |
| **Opsiynau ymateb** |
| Testun |

| **Cwestiwn 24** |
|---|
| Yn ystod pandemig Covid-19, rhoddwyd trefniadau ar waith i ganiatáu i awdurdodau lleol gynnal cyfarfodydd cyngor a chynnal busnes cyngor o bell. A wnaethoch ddefnyddio'r trefniadau hyn? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Do<br>2. Naddo |

| **Cwestiwn 25** |
|---|
| A hoffech i'r trefniadau hyn barhau yn y dyfodol? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Hoffwn<br>2. Na hoffwn<br>3. Ddim yn gwybod |

| **Cwestiwn 26** |
|---|
| Pam ydych chi'n dweud hynny? |
| **Opsiynau ymateb** |
| Testun |

| **Cwestiwn 27** |
|---|
| A fyddech yn annog eraill i ddod yn gynghorydd? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Byddwn<br>2. Na fyddwn<br>3. Ddim yn gwybod |

| Cwestiwn 28 |
| --- |
| Pam ydych chi'n dweud hynny? |
| **Opsiynau ymateb**<br>Testun |

| Cwestiwn 29 |
| --- |
| A ydych yn bwriadu sefyll i gael eich ailethol? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Ydw<br>2. Nac ydw<br>3. Ddim yn gwybod |

| Cwestiwn 30 |
| --- |
| Pam ydych chi'n dweud hynny? |
| **Opsiynau ymateb**<br>Testun |

**Adran 3: Cydnabyddiaeth ariannol**

Hoffem nawr ofyn cwestiynau ichi am y gydnabyddiaeth ariannol y mae cynghorwyr yn ei chael fel rhan o'u rôl a'r lwfansau a’r treuliau ychwanegol y maent yn cael eu hawlio.

Q31. Bydd yr adran hon yn gofyn cyfres o gwestiynau yn seiliedig ar eich rôl naill ai fel cynghorydd cymuned neu dref neu gynghorydd sir (prif gynghorydd). Dewiswch yr opsiwn sy'n berthnasol ichi er mwyn parhau:

- Cynghorydd cymuned neu dref
- Cynghorydd sir (prif gynghorydd)
- Cynghorydd â ‘dwy het’

**Cynghorydd cymuned neu dref**

Pan oeddech yn ystyried sefyll i gael eich ethol..

| **Cwestiwn 32** |
|---|
| A oeddech yn gwybod y byddai gennych hawl i gael taliad sylfaenol? |
| **Opsiynau ymateb**<br>1. Oeddwn<br>2. Nac oeddwn |

| **Cwestiwn 33** |
|---|
| A oeddech yn gwybod y byddech yn cael cyflog uwch os oedd gennych swydd uwch? |
| **Opsiynau ymateb**<br>1. Oeddwn<br>2. Nac oeddwn |

| **Cwestiwn 34** |
|---|
| A oeddech yn gwybod bod gan gynghorwyr hawl i gael y lwfansau a'r treuliau canlynol: |
| **Opsiynau ymateb**<br>1. Costau teithio a chynhaliaeth ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy o fewn ardal y cyngor a'r tu allan iddi - Oeddwn / Nac oeddwn<br>2. Iawndal am golli enillion - Oeddwn / Nac oeddwn<br>3. Ad-dalu costau gofal ar gyfer dibynyddion hyd at uchafswm - Oeddwn / Nac oeddwn<br>4. Ad-dalu costau gofal ar gyfer cymorth personol - Oeddwn / Nac oeddwn |

Ers dod yn Gynghorydd tref neu cymuned...

| **Cwestiwn 35** |
|---|
| A ydych wedi derbyn eich taliad sylfaenol ac unrhyw daliad uwch yn llawn? |

| |
|---|
| **Opsiynau ymateb**<br>1. Do<br>2. Naddo<br>3. Ddim yn gwybod |

| **Cwestiwn 36** |
|---|
| Pam felly? |
| **Opsiynau ymateb**<br>Testun |

| **Cwestiwn 37** |
|---|
| A ydych wedi derbyn unrhyw rai o'r lwfansau a’r treuliau canlynol fel rhan o'ch rôl? |
| **Opsiynau ymateb**<br>Costau teithio a chynhaliaeth<br>1. Wedi’u hawlio’n llawn<br>2. Wedi hawlio rhan o'm cost<br>3. Roedd gen i’r costau hyn ond ni wnes i eu hawlio<br>4. Nid oedd gen i’r costau hyn<br>Iawndal am golli enillion<br>1. Wedi'u hawlio'n llawn<br>2. Wedi hawlio rhan o'm cost<br>3. Roedd gen i'r costau hyn ond ni wnes i eu hawlio<br>4. Nid oedd gen i'r costau hyn<br>Costau gofal a/neu gymorth personol<br>1. Wedi'u hawlio'n llawn<br>2. Wedi hawlio rhan o'm cost<br>3. Roedd gen i'r costau hyn ond ni wnes i eu hawlio<br>4. Nid oedd gen i'r costau hyn |

**Prif gynghorydd**

Pan oeddech yn ystyried sefyll i gael eich ethol..

| **Cwestiwn 38** |
|---|
| A oeddech yn gwybod y byddai gennych hawl i gael taliad sylfaenol? |
| **Opsiynau ymateb**<br>1. Oeddwn<br>2. Nac oeddwn |

| **Cwestiwn 39** |
|---|
| A oeddech yn gwybod y byddech yn cael cyflog uwch os oedd gennych swydd uwch? |
| **Opsiynau ymateb**<br>1. Oeddwn<br>2. Nac oeddwn |

| **Cwestiwn 40** |
|---|
| A oeddech yn gwybod bod gan gynghorwyr hawl i gael y lwfansau a'r treuliau canlynol: |
| **Opsiynau ymateb**<br>1. Costau teithio a chynhaliaeth ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy o fewn ardal y cyngor a’r tu allan iddi - Oeddwn / Nac oeddwn<br>2. Ad-dalu costau gofal ar gyfer dibynyddion hyd at uchafswm - Oeddwn / Nac oeddwn<br>3. Ad-dalu costau gofal ar gyfer cymorth personol - Oeddwn / Nac oeddwn |

Ers dod yn Brif gynghorydd...

| **Cwestiwn 41** |
|---|
| A ydych wedi derbyn eich taliad sylfaenol ac unrhyw daliad uwch yn llawn? |
| **Opsiynau ymateb**<br>1. Do |

2. Naddo
3. Ddim yn gwybod

| Cwestiwn 42 |
|---|
| Pam felly? |
| **Opsiynau ymateb**<br>Testun |

| Cwestiwn 43 |
|---|
| A ydych wedi derbyn unrhyw rai o'r lwfansau a'r treuliau canlynol fel rhan o'ch rôl? |
| **Opsiynau ymateb**<br>Costau teithio a chynhaliaeth<br>1. Wedi'u hawlio'n llawn<br>2. Wedi hawlio rhan o'm cost<br>3. Roedd gen i'r costau hyn ond ni wnes i eu hawlio<br>4. Nid oedd gen i'r costau hyn<br>Costau gofal a/neu gymorth personol<br>5. Wedi'u hawlio'n llawn<br>6. Wedi hawlio rhan o'm cost<br>7. Roedd gen i'r costau hyn ond ni wnes i eu hawlio<br>8. Nid oedd gen i'r costau hyn |

## Adran 4: Cyfarpar

Hoffem nawr ofyn cwestiynau ichi am y cyfarpar rydych yn ei ddefnyddio i ymgymryd â'ch rôl.

| Cwestiwn 44 |
|---|
| A oes unrhyw gyfarpar wedi'i ddarparu ichi er mwyn ymgymryd â'ch gwaith fel cynghorydd? |
| **Opsiynau ymateb** |

| |
|---|
| 1. Oes<br>2. Nac oes<br>3. Ddim yn gwybod |

| **Cwestiwn 45** |
|---|
| Pa fath o gyfarpar a gawsoch? |
| **Opsiynau ymateb** |
| Testun |

| **Cwestiwn 46** |
|---|
| A gafodd y cyfarpar hwn: |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Ei ddarparu gan y cyngor<br>2. Ei ariannu gennych chi<br>3. Arall (rhowch fanylion): |

| **Cwestiwn 47** |
|---|
| A oes unrhyw gyfarpar ychwanegol sydd ei angen arnoch a fyddai'n eich galluogi i gyflawni eich rôl yn fwy effeithiol? |
| **Opsiynau ymateb** |
| Testun |

## Adran 5: Ymddygiad ac agweddau tuag at gynghorwyr yn eich ardal

Hoffem nawr ofyn cwestiynau ichi am ymddygiad ac agweddau cyffredinol tuag at gynghorwyr yn eich ardal leol.

| **Cwestiwn 48** |
|---|
| Ers dod yn gynghorydd, a ydych wedi profi neu weld unrhyw fath o ymddygiad amhriodol* wrth ymgymryd â'ch rôl? |

| |
|---|
| Ymddygiad amhriodol yw unrhyw ymddygiad sy'n achosi niwsans, annifyrrwch, braw neu ofid i bobl yw ymddygiad amhriodol. Gall hyn gynnwys ymddygiadau sy'n ymosodol neu'n fygythiol neu sy'n effeithio ar ansawdd bywyd unigolyn. |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Gan aelodau o'r cyhoedd – Do / Naddo / Ddim yn gwybod<br>2. Gan swyddogion - Do / Naddo / Ddim yn gwybod<br>3. Gan gynghorwyr - Do / Naddo / Ddim yn gwybod<br>4. Arall (rhowch fanylion isod): |

| **Cwestiwn 49** |
|---|
| A allwch ddisgrifio'r ymddygiad a brofwyd gennych neu a welsoch? |
| **Opsiynau ymateb** |
| Testun |

| **Cwestiwn 50** |
|---|
| Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a ydych yn credu bod safon yr ymddygiad tuag at gynghorwyr yn eich ardal wedi: |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Gwella<br>2. Aros yr un fath<br>3. Gwaethygu<br>4. Ddim yn gwybod |

| **Cwestiwn 51** |
|---|
| Pam ydych chi'n dweud hynny? |
| **Opsiynau ymateb** |
| Testun |

| Cwestiwn 52 |
|---|
| A oes trefniadau priodol ar waith i ddelio ag ymddygiad amhriodol tuag at gynghorwyr wrth iddynt ymgymryd â'u rôl? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Gan aelodau o'r cyhoedd – Oes / Nac oes / Ddim yn gwybod<br>2. Gan swyddogion - Oes / Nac oes / Ddim yn gwybod<br>3. Gan gynghorwyr - Oes / Nac oes / Ddim yn gwybod |

## Adran 6: Hyfforddi a datblygu

Hoffem nawr ofyn cwestiynau ichi am unrhyw hyfforddiant a datblygiad rydych wedi'i gael fel rhan o'ch rôl fel cynghorydd…

| Cwestiwn 53 |
|---|
| A gynigiwyd rhaglen gynefino ichi pan ddaethoch yn gynghorydd? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Do<br>2. Naddo<br>3. Ddim yn gwybod |

| Cwestiwn 54 |
|---|
| A wnaethoch gwblhau'r rhaglen gynefino? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Do<br>2. Naddo |

| Cwestiwn 55 |
|---|
| Pam felly? |
| **Opsiynau ymateb** |
| Testun |

| Cwestiwn 56 |
| --- |
| A oes unrhyw beth arall y credwch y byddai'n ddefnyddiol ei gynnwys yn y rhaglen gynefino? |
| **Opsiynau ymateb** |
| Testun |

| Cwestiwn 57 |
| --- |
| A ydych yn derbyn hyfforddiant rheolaidd fel rhan o'ch rôl? Gallai hyn gynnwys hyfforddiant ar ddeddfwriaeth a rheoliadau newydd, neu unrhyw feysydd newydd yn ymwneud â'ch rôl? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Ydw<br>2. Nac ydw<br>3. Ddim yn gwybod |

| Cwestiwn 58 |
| --- |
| Pa fath o hyfforddiant ydych chi wedi'i gael (er enghraifft, iechyd a diogelwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth, TG ac ati)? |
| **Opsiynau ymateb** |
| Testun |

| Cwestiwn 59 |
| --- |
| Os oes unrhyw beth arall yr hoffech inni ei wybod am y materion dan sylw yn yr arolwg hwn, dywedwch wrthym isod: |
| **Opsiynau ymateb** |
| Testun |

## Adran 7: Demograffeg

Yn olaf, hoffem ofyn am rywfaint o wybodaeth bersonol gennych. Bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i ddarparu cyd-destun ar gyfer eich ymatebion i'r arolwg. Bydd hefyd yn galluogi Llywodraeth Cymru i gasglu data pwysig am amrywiaeth cynghorwyr yng Nghymru a nodi ffyrdd o gefnogi mwy o amrywiaeth ymhlith cynrychiolwyr etholedig.

| **Cwestiwn 60** |
| --- |
| Beth yw'ch rhyw? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Benywaidd<br>2. Gwrywaidd |

| **Cwestiwn 61** |
| --- |
| Beth yw'ch oedran? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. 18-24<br>2. 25-34<br>3. 35-44<br>4. 45-54<br>5. 55-64<br>6. Dros 65 |

| **Cwestiwn 62** |
| --- |
| Beth yw'ch grŵp ethnig? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Gwyn<br>2. Cymysg neu grwpiau Aml-ethnig<br>3. Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig<br>4. Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd<br>5. Grŵp ethnig arall |

| Cwestiwn 63 |
| --- |
| Yn fwy penodol, beth yw'ch grŵp ethnig? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon neu Brydeinig<br>2. Gwyddelig<br>3. Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig<br>4. Roma<br>5. Unrhyw gefndir Gwyn arall (rhowch fanylion):<br><br>Testun |

| Cwestiwn 64 |
| --- |
| Yn fwy penodol, beth yw'ch grŵp ethnig? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Gwyn a Du Caribïaidd<br>2. Gwyn a Du Affricanaidd<br>3. Gwyn ac Asiaidd<br>4. Unrhyw gefndir Cymysg neu Aml-ethnig arall (rhowch fanylion):<br><br>Testun |

| Cwestiwn 65 |
| --- |
| Yn fwy penodol, beth yw'ch grŵp ethnig? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Indiaidd<br>2. Pacistanaidd<br>3. Bangladeshaidd<br>4. Tsieineaidd<br>5. Unrhyw gefndir Asiaidd arall (rhowch fanylion): |

| **Cwestiwn 66** |
| --- |
| Yn fwy penodol, beth yw'ch grŵp ethnig? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Caribïaidd<br>2. Cefndir Affricanaidd (rhowch fanylion isod)<br>3. Unrhyw gefndir Du, Du Cymreig, Du Prydeinig neu Garibïaidd arall (rhowch fanylion isod) |

| **Cwestiwn 67** |
| --- |
| Yn fwy penodol, beth yw'ch grŵp ethnig? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Arabaidd<br>2. Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch fanylion):<br><br>Testun |

| **Cwestiwn 68** |
| --- |
| A allwch ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?<br><br>Dewiswch bob un sy'n berthnasol |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Deall Cymraeg llafar<br>2. Siarad Cymraeg<br>3. Darllen Cymraeg<br>4. Ysgrifennu Cymraeg<br>5. Dim un o'r uchod |

| **Cwestiwn 69** |
| --- |
| Beth yw'ch prif iaith? |
| **Opsiynau ymateb** |

1. Cymraeg
2. Saesneg
3. Arall – gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain (rhowch fanylion):

Testun

| **Cwestiwn 70** |
|---|
| A oes gennych unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch sy'n para 12 mis neu fwy neu y disgwylir iddo bara 12 mis neu fwy? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Oes<br>2. Nac oes |

| **Cwestiwn 71** |
|---|
| A yw unrhyw gyflwr neu salwch sydd gennych yn lleihau’ch gallu i gynnal gweithgareddau o ddydd i ddydd? |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Ydy, cryn dipyn<br>2. Ydy, ychydig<br>3. Ddim o gwbl |

| **Cwestiwn 72** |
|---|
| A ydych yn gofalu am unrhyw un, neu'n rhoi unrhyw gymorth neu gefnogaeth i unrhyw un, oherwydd bod gan yr unigolyn hwnnw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch hirdymor, neu broblemau’n gysylltiedig â henaint?<br>*Peidiwch â chynnwys unrhyw beth rydych yn ei wneud fel rhan o'ch cyflogaeth â thâl.* |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Nac ydw<br>2. Ydw, 9 awr yr wythnos neu lai<br>3. Ydw, 10 i 19 awr yr wythnos<br>4. Ydw, 20 i 34 awr yr wythnos<br>5. Ydw, 35 i 49 awr yr wythnos<br>6. Ydw, 50 awr neu fwy yr wythnos |

| **Cwestiwn 73** |
|---|
| A yw'r rhywedd rydych chi'n ei harddel yr un fath â'ch rhyw a gofrestrwyd pan gawsoch eich geni?<br>*Mae'r cwestiwn hwn yn wirfoddol.* |
| **Opsiynau ymateb** |
| 1. Ydy<br>2. Nac ydy (disgrifiwch eich hunaniaeth rhywedd):<br><br>Testun |

# Atodiad B: Data demograffeg

## Rhyw

Beth yw eich rhyw?

| Rhyw | Canran yr ymatebwyr | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Benywaidd | 39 | 430 |
| Gwrywaidd | 61 | 676 |

Sylfaen: Dewisodd 1,106 o ymatebwyr (518 o ymatebwyr beidio ag ateb y cwestiwn hwn)

## Oedran

Beth yw eich oedran?

| Oedran | Canran yr ymatebwyr | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| 18-34 | 3 | 34 |
| 35-44 | 8 | 84 |
| 45-54 | 14 | 149 |
| 55-64 | 27 | 299 |
| 65 neu hŷn | 49 | 539 |

Sylfaen: 1,105 o ymatebwyr (dewisodd 519 o ymatebwyr beidio ag ateb y cwestiwn hwn)

## Grŵp ethnig

Beth yw eich grŵp ethnig?

| Grŵp ethnig | Canran yr ymatebwyr | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Gwyn | 97 | 1069 |
| Pobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrif ethnig | 2.9 | 32 |

Sylfaen: Dewisodd 1,101 o ymatebwyr (523 o ymatebwyr beidio ag ateb y cwestiwn hwn)

## Sgiliau iaith Gymraeg

A allwch ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?

| Sgiliau iaith Gymraeg | Canran yr ymatebwyr | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Deall Cymraeg llafar | 34 | 371 |
| Siarad Cymraeg | 30 | 331 |
| Darllen Cymraeg | 31 | 342 |
| Ysgrifennu Cymraeg | 26 | 290 |
| Dim un o'r uchod | 58 | 640 |

Sylfaen: Dewisodd 1,102 o ymatebwyr (522 o ymatebwyr beidio ag ateb y cwestiwn hwn)

## Statws iechyd

A oes gennych unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch sy'n para 12 mis neu fwy neu y disgwylir iddo bara 12 mis neu fwy?

| | Canran yr ymatebwyr | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Oes | 24 | 264 |
| Nac oes | 76 | 838 |

Sylfaen: 1102 o ymatebwyr

A yw unrhyw gyflwr neu salwch sydd gennych yn lleihau'ch gallu i gynnal gweithgareddau o ddydd i ddydd?

| | Canran yr ymatebwyr | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Ydy, cryn dipyn | 14 | 36 |
| Ydy, ychydig | 48 | 125 |
| Ddim o gwbl | 39 | 101 |

Sylfaen: 264 o ymatebwyr

A ydych yn gofalu am unrhyw un, neu'n rhoi unrhyw gymorth neu gefnogaeth i unrhyw un, oherwydd bod gan yr unigolyn hwnnw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch hirdymor, neu broblemau’n gysylltiedig â henaint?

| | Canran yr ymatebwyr | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Nac ydw | 76 | 843 |
| Ydw, 9 awr yr wythnos neu lai | 12 | 136 |
| Ydw, 10 i 19 awr yr wythnos | 5 | 52 |
| Ydw, 20 i 34 awr yr wythnos | 2 | 22 |
| Ydw, 35 i 49 awr yr wythnos | 1 | 13 |
| Ydw, 50 awr neu fwy yr wythnos | 4 | 39 |

Sylfaen: 1105 o ymatebwyr